# Y DINESYDD

Mawrth 2019 Papur Pobl Caerdydd a'r Fro Rhif 435 £1


Tŷ Dyffryn td. 18


Bill Davies & Elin Jones AC td. 12


Côr Meibion Taf yn Rhufain td. 18


Ysgol St Ffransis c1966 td. 7

# Y DINESYDD

**Golygydd:**
**Eiry Palfrey**

***Golygydd Mawrth***
***Hefin Mathias***

Cyfraniadau erbyn 27 Mawrth i:
hefinmathias@hotmail.co.uk
13, Heol Don, Yr Eglwys Newydd,
Caerdydd, CF14 2AR
029 20311340

Y Digwyddiadur:
Yr Athro E Wyn James
JamesEW@caerdydd.ac.uk
16 Kelston Road, Caerdydd, CF14 2AJ
029 20628754

Hysbysebion:
Iestyn Davies
iestynd@gmail.com
15 Birchfield Crescent, Parc Victoria,
Caerdydd, CF5 1AE
07876 068498

Prif Ddosbarthwr:
Ceri Morgan
ceri33@btopenworld.com
24, Cwm Gwynlais, Tongwynlais,
Caerdydd, CF15 7HU
029 20813812 / 07774 816209

Tanysgrifiadau i:
Ceri Morgan
ceri33@btopenworld.com
24, Cwm Gwynlais, Tongwynlais,
Caerdydd, CF15 7HU
029 20813812 / 07774 816209

**www.dinesydd.cymru**
Cyhoeddir gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi
ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyr:
Gwasg Morgannwg, Castell-nedd
Cysodydd: Eirian Dafydd

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Y Cyfryngau Cymdeithasol
Twitter: @DinesyddCdydd
Facebook:
www.facebook.com/YDinesydd


# DAVID DAVIES

## Euryn Ogwen Williams



Ganwyd un o gymwynaswyr mwyaf Cymru ychydig dros 200 mlynedd yn ôl. Mae cerflun iddo yn y Barri, ac un tebyg yn Llandinam.

Ganwyd David Davies, yn Llandinam, Maldwyn ar Ragfyr 18fed, 1818.

Ffermwr tenant a llifiwr coed oedd cyn gwneud ei ffortiwn yn adeiladu pontydd a rheilffyrdd ac wedyn troi ei olygon at y diwydiant glo.

Ei gamp fwyaf fel peiriannydd y rheilffyrdd oedd hafn fawr Talerddig ar Reilffordd y Drenewydd a Machynlleth - hon oedd hafn ddyfnaf y byd pan gwblhaodd y gwaith ym 1862.

Ond ni lwyddodd pob un o fentrau Davies - ni chyrhaeddodd y rheilffordd â'r enw crand Rheilffordd Manceinion a Milffwrdd y naill le na'r llall!

Bu 1864 yn drobwynt yn ei yrfa pan agorodd ei bwll glo cyntaf. Erbyn 1886 roedd wedi agor pum glofa arall. Y flwyddyn ganlynol daeth y pyllau dan enw cwmni cyfyngedig cyhoeddus, yr Ocean Coal Co. Ltd.. Pan fu farw ym 1890, hwn oedd cwmni glo mwyaf a mwyaf proffidiol y de.

Penllanw gyrfa David Davies oedd adeiladu'r doc yn y Barri. Daeth ef a nifer o berchnogion glofeydd eraill yng Nghwm Rhondda at ei gilydd i adeiladu dociau newydd er mwyn osgoi defnyddio dociau Bute yng Nghaerdydd. Aethant ati i adeiladu rheilffordd o'r maes glo i'r dociau newydd ac agorodd Dociau'r Barri yn mis Gorffennaf 1889.

Roedd David Davies yn Fethodist Calfinaidd brwd, yn Sabathydd ac yn llwyrymwrthodwr gydol ei oes. Roedd yn gyfrannwr hael iawn at achosion crefyddol ac addysgol.

Gan iddo dderbyn addysg elfennol iawn ei hun, roedd darparu addysg prifysgol yng Nghymru yn agos at ei galon ac roedd yn gefnogwr brwd o'r coleg cyntaf a agorwyd yn Aberystwyth ym 1872.

Gwasanaethodd fel Aelod Seneddol Rhyddfrydol dros Fwrdeistrefi Ceredigion rhwng 1874-86, a chafodd ei ethol i Gyngor cyntaf Sir Drefaldwyn adeg ei sefydlu ym 1889.

Bu farw ym mis Gorffennaf 1890.

## Allwch chi helpu?

Tybed a fyddai un ohonoch chi, gefnogwyr y Dinesydd, yn barod i olygu rhifyn mis Medi eleni?

Yr hyn fyddai'n ei olygu yw ychydig oriau tua diwedd Awst i dderbyn a chydnabod cyfraniadau trwy e-bost, bwrw golwg drostynt, a'u hanfon ymlaen at Eirian Dafydd, ein cysodydd. Eirian sy'n rhoi trefn ar y cyfan. Byddai cymorth parod ar gael i chi.

Os oes diddordeb, byddwn yn falch o glywed wrthoch chi – trwy e-bost ar db.james@ntlworld.com neu ar y ffôn,

029 2056 6731 / 07800 768059.

Diolch am ystyried y cais. Byddai'n gymwynas werthfawr â'r Dinesydd.

*Bryan James (Cadeirydd)*

## Pencampwyr Sgïo Cymru
## Megan a Harri Jones



Bu Pencampwriaethau Sgïo Cymru 2019 yn Champery-Les Croset, yn y Swistir, yn ddigwyddiad i'w gofio i Megan a Harri Jones. Er bod Megan wedi bod yn Bencampwraig Sgïo Cymru o'r blaen yn yr adran dan 10, roedd yn rhaid iddi gystadlu yn yr adran dan 12 eleni, am ei bod newydd ddathlu ei phen-blwydd yn 11 oed.

Serch hynny, roedd ei brawd bach, Harri, sy'n 8 mlwydd oed, yn gallu llenwi ei lle trwy gystadlu am y tro cyntaf, yn yr adran dan 10.

Cafodd y teulu lwyddiant ysgubol wrth i'r ddau ohonynt gipio Pencampwriaeth Cymru, yn yr adran ar gyfer sgiwyr o dras Gymreig, Megan yn yr adran dan 12 a Harri yn yr adran dan 10 - gyda Harri'n efelychu camp ei dad pan oedd e yr un oed.

Dyfarnwyd bonws dymunol iawn i Megan. Oherwydd fod cyfanswm ei hamserau yn GS a Slalom yn ei gwneud hi y cyflymaf o'r holl sgiwyr yn yr adran dan 10 ac 12, cyflwynwyd tlws iddi gan Ysgrifennydd Cymru, Alun Cairns yn ystod y gwobrwyo.

Er mai yn y Swistir y maen nhw'n byw, mae gan y teulu gysylltiadau agos iawn â Chaerdydd a Chymru. Mae Arwel Jones, tad Megan a Harri, yn enedigol o Gaerdydd, yn gyn-ddisgybl Ysgol Glantaf, ac yn gyn-Bencampwr Sgïo Cymru ei hun.

Er nad yw Megan na Harri wedi byw yng Nghymru erioed, maen nhw'n siarad Cymraeg yn rhugl – yn ogystal â Saesneg a Ffrangeg, ynghyd ag Almaeneg fel "ail iaith"!

## Clwb Rhwyfo Llandaf

Dydd Sadwrn, 16 Chwefror, cafwyd perfformiad gwych gan fechgyn iau y clwb yn y 'J 14 coxed 4' ar afon Tafwys yn Henley. Daethant yn ail allan o chwech tîm oedd yn cystadlu – a'u curo'n unig gan y tîm cartref. Llongyfarchiadau mawr!

***O'r chwith i'r dde, mae Will Parry, Kier Palmer, Kai Schlottmann, Osian James ac Ifan Cox (Ie, fe yw'r cox!). Ar wahân i Kai, Ysgol Llanisien, mae'r bechgyn i gyd yn ddisgyblion Bl. 9 yn Ysgol Glantaf.***



### Siopau sy'n gwerthu'r Dinesydd

**CABAN**, Pontcanna
**CANT A MIL VINTAGE**, 100 Whitchurch Rd.
**CHAPTER**, Treganna
**DERI STORES**, Rhiwbina
**GRIFFIN BOOKS**, Penarth
**NISA**, Heol Caerdydd, Dinas Powys
**PAPERWEIGHT**, 22 Wellfield Road
**SIOP BODLON**, Yr Hen Lyfrgell, Yr Ais
**SIOP Y FELIN**, Yr Eglwys Newydd
**VICTORIA FEARN GALLERY**, Rhiwbina

# Ysgol Sant Baruc

**Eisteddfod**

Bu cystadlu brwd yn Eisteddfod yr Ysgol ar yr 22ain o Chwefror gyda nifer o ddisgyblion yn cynrychioli llysoedd Buddug, Glyndŵr a Llywelyn.

Gwelwyd disgyblion yn cystadlu yng nghystadlaethau canu, llefaru, dawnsio disgo, offerynnol, darlunio, llawysgrifen a chôr llys.

Llongyfarchiadau mawr i Aled (Caws a Chracyrs) o lys Buddug am ennill y gadair eleni. Yn ail roedd Taliesin (Plwmp) o lys Llywelyn ac yn drydydd roedd Aled (Bendigeidfran) o lys Glyndŵr. Thema'r gerdd eleni oedd Seren ac rydym yn ddiolchgar iawn i Mrs Glenna Griffith am feirniadu'r gystadleuaeth.



**Cerddor y Flwyddyn**

Llongyfarchiadau i Elian o lys Glyndŵr am ennill tlws y Cerddor eleni. Mae Elian yn haeddu'r tlws am ei gyfraniad yn ysgrifennu a chyfansoddi caneuon band y Dagrau Tân. Elian sy'n arwain y band a bu'n llwyddiannus llynedd yn cystadlu gyda'r band yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Mae Elian yn derbyn gwersi gitâr ac fe berfformiodd rhan "Scar" yng nghynhyrchiad *Llew Frenin* yr ysgol.

**Gymnasteg yr Urdd**

Da iawn i Lottie a Nia am eu perfformiad gwych yng nghystadleuaeth gymnasteg yr Urdd. Bu'r merched yn cynrychioli Caerdydd a'r Fro yn Aberystwyth yn ddiweddar yn y gystadleuaeth deuawd dan 11 oed.

**Hybu Cymreictod**

Gwelwyd nifer o weithgareddau hybu Cymreictod yn yr ysgol wrth i ni anelu at ennill statws Arian y Siarter Iaith. Bu Ysgol High Street yn ymweld â'r ysgol er mwyn gwylio ein perfformiadau Nadolig. Derbyniwyd gwahoddiad i wylio cyngherddau Ysgol High Street hefyd. Bu'r ysgol yn dathlu dydd Miwsig Cymru gyda Blwyddyn 3 yn cynnal gwasanaeth hyfryd yn hybu cerddoriaeth Cymraeg ac fe fwynheuodd yr Adran Iau berfformiad *Sioe CIP* gyda Tudur Phillips ym mis Ionawr.

Edrychwn ymlaen at groesawu Mei Gwynedd ar ôl hanner tymor i recordio can newydd yr Urdd.

# Ysgol Gwaun y Nant

**Eisteddfod Ysgol**

Bu cyffro mawr yn yr ysgol yn ddiweddar wrth i lysoedd Cadog, Gildas a Dyfan gystadlu am dlws Eisteddfod yr Ysgol. Bu'r disgyblion yn cystadlu mewn ystod o gystadlaethau gan gynnwys llefaru, canu, offerynnol, llawysgrifen a chelf digidol. Uchafbwynt y dydd oedd y Seremoni Gadeirio. Llongyfarchiadau mawr iawn i Caitlyn Maurice am ysgrifennu'r gerdd fuddugol *Ynys Afallon*.

**Dathlu Diwrnod Rhyngwladol y Merched**

Gwahoddwyd rhieni i wasanaeth arbennig gan ddisgyblion Blwyddyn 5 yr ysgol yn ddiweddar i ddathlu Diwrnod Rhyngwladol y Merched. Gwaith thema'r dosbarth yn ystod y tymor yw Dynesau Dylanwadol ac mae'r disgyblion wedi bod yn dysgu am enwogion yn amrywio o Rosa Parks, Betsi Cadwaladr a'r Fam Theresa i Oprah Winfrey, Malala Yousafzai a Betty Campbell - prif athrawes ddu gyntaf Cymru a enillodd bleidlais gyhoeddus yn ddiweddar i gael cerflun ohoni wedi ei osod y tu allan i bencadlys newydd BBC Cymru yng nghanol Caerdydd.

**Gwyddonwyr Fforensig Bl 4**

Bu disgyblion Blwyddyn 4 ar drip i Ardan Uwchradd Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg er mwyn cael 'profiad labordy'. Cafodd y plant gyfle i arbrofi gyda phob math o offer gwyddonol wrth iddynt geisio datrys dirgelion Gwyddonwyr Fforensig am y diwrnod. Diolch yn fawr iawn i staff Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg am y croeso.



# Ysgol Y Wern

**Gala Nofio Cenedlaethol yr Urdd**
Llongyfarchiadau mawr i'n nofwyr. Llwyddodd tîm bechgyn y ras gyfnewid i ddod yn ail dros Gymru a Rhys Witchell yn ail yn y dull cefn. Da iawn i bob un am eu cyfraniad.

**Gymnasteg**
Llongyfarchiadau i bawb a wnaeth gystadlu yn ddiweddar ym mhencampwriaeth Cymru. Cawsant dipyn o lwyddiant gyda thimoedd ac unigolion o'r ysgol yn mynd ymlaen i gynrychioli Cymru yn Stoke on Trent.

**Gwyddbwyll**
Llongyfarchiadau i Nona Roberts am ennill Pencampwriaeth Gwyddbwyll i Ferched Cymru yn ei grŵp.

Llongyfarchiadau hefyd i Finn Osborne am ddod yn drydydd yn y Grŵp o Dan 9 a Jack Neale am ei drydydd safle yn y Grŵp Dan 10 yng Nghystadleuaeth Gwyddbwyll Caerdydd a'r Fro.

**Baner Platinwm Eco Ysgolion**
Mae'r ysgol wedi cadw ei statws o fod yn Ysgol Eco Platinwm unwaith eto eleni.

Hoffai'r Pwyllgor Eco ddiolch i holl ddisgyblion, staff a rhieni'r ysgol am eu cefnogaeth er mwyn sicrhau fod seiliau cadarn i'r ethos amgylcheddol o fewn yr ysgol.


*Nona Roberts*

# Ysgol Dewi Sant

Mae hi wedi bod yn hanner tymor llawn bwrlwm yn Ysgol Gymraeg Dewi Sant. Mae pawb wedi bod wrth eu boddau yn cyflawni ein heriau wythnosol. Mae'r tasgau wedi eu cynllunio i feithrin annibyniaeth a braf yw gweld brwdfrydedd y disgyblion wrth weithio.

Mae ein Dysgwyr Digidol wedi arwain gwasanaeth er mwyn lansio wythnos diogelwch ar lein ac fe gynllunion nhw weithgareddau amrywiol er mwyn codi ymwybyddiaeth ar draws yr ysgol.

Mae cryn edrych ymlaen at Eisteddfod yr Ysgol ac mae'r cyfarfodydd llys yn dechrau troi yn gystadleuol yn barod! Mae'r coridorau a'r dosbarthiadau yn llawn plant yn ymarfer dawnsio, cyfansoddi barddoniaeth, peintio, canu a llefaru. Llys Tathan aeth â hi llynedd – pwy fydd yn cipio'r tlws eleni, tybed?


Yn ddiweddar, cafodd yr Adran Iau'r cyfle i gwestiynu'r athletwraig Julie Thomas. Fe gystadlodd Julie mewn bowlio yng Ngemau'r Gymanwlad, gan ddychwelyd yn ôl i Gymru gyda'r fedal efydd. Cafodd pawb gyfle i'w holi a dysgu mwy am lwyddiannau ein tîm cenedlaethol allan yn Melbourne. Fe gollodd Julie ei golwg tua degawd yn ôl ac roedd yn fraint cael gwrando arni'n trafod sut oedd hi wedi dyfalbarhau a llwyddo er iddi orfod newid ei ffordd o fyw yn llwyr. Roedd hi'n ysbrydoliaeth i ni gyd, ac fe ysgogodd ei hymweliad lawer o waith bendigedig.

Daeth darn bach o Frasil i Lanilltud Fawr wythnos ddiwethaf. Cafodd y Cyfnod Sylfaen hwyl a sbri wrth fynychu gweithdy samba. Cyfansoddodd bawb gerddoriaeth ar gyfer dawns a chafwyd y cyfle i'w pherfformio.

Mae pawb yn haeddu gwyliau wedi'r holl brysurdeb – byddwn yn barod am fwy o hwyl a sbri yn yr hanner tymor newydd!


*Yr Adran Iau*

**Rhif: 189**





## Ar Draws

1. 'Bydd melys yn yr afon
   ----- ----- a'm deil i'r lan' (MD) (4,5)
8. Rhaid cwrdd ar amser i gadw hwn (3)
9. Ad-drefnu adran ysgol a 50 aderyn (4,1,6,)
11. Ergyd i un mewn dau gant (3)
12. Cysylltu ar ddechrau un noswaith oer (3)
13. Ai glanhau yw'ch nod chwi? (5)
14. Ffosfforws, iodin a halen yn codi i'r man uchaf (6)
16. Taflu'r tapas ddiwedd Mai mewn i'r toes (6)
18. 'Yn cysgu'n dawel dan ----- -----
    Yn Llanfihangel Genau'r Glyn' (JJW) (2,3)
19. Ystafell fach yn y corff (3)
21. Purwyd ar yn ail i gael brecwast iach (3)
22. 'Y safri fach ----- ----- -----
    A llwyn o focs yng nghwsg' (WCW) (1'1,6,3)
24. 'Beth yw'r ----- sydd yn fy nghalon
    Am drallodion eto i ddod?' (JT) (3)
25. 'Dyna nhw'r ----- lu,
    Heb un yn gwadu'i ach' (WCW) (9)

## I Lawr

2. Cywasgu'r anghenfil yn dilyn y cyntaf (3)
3. Ysgwyd y tipyn pedol (5)
4. Rhan o'r cyfamod olaf ar delerau (6)
5. Gwerth ei weld yw nod meddygfa heb ddiod (7)
6. N'ôl Dad i ail-drefnu copa tawel yr Arlywydd (6,5)
7. Daw ei thaid rywsut i ymateb (9)
10. 'Dy ddaioni a'th drugared,
    ----- ----- drwy y byd' (EHE) (1'1,9)
11. Chwalu'r sopyn clyd am linell gyswllt (9)
15. Torri calon hanner euog yng ngorsaf Caerdydd (7)
17. Y clefyd di-ddiwedd yn rhoi y siawns (1,5)




20. 'A dyna sy'n ----- fy nodyn
    Fod Iesu yn Geidwad i mi' (WP) (5)
23. Ennaint yr offeiriad (3)

**Enillydd Croesair Rhif 187**
**Huana Simpson, Llansanwyr**

**Atebion Croesair Rhif 187**

**Ar Draws** 1. Llifo drwy 5. Copa 7. Braint 9. Tafarn 10. Ganol gaeaf 12. Enillwr 14. Cadarn 15. Chwerthinllyd 19. Ysgaru 20. Diadell 21. Ffordd 22. Fab Dafydd
**I Lawr** 2. Iarll 3. Oriog 4. Ystol 5. Coflaid 6. Persawru 8. Tyner 11. Yn gwisgo 13. Llariaidd 14. Cyllid 16. Ieuaf 17. Drama 18. Llety

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams
erbyn 5 Ebrill, 2019
22 Heol Cae Rhys, Rhiwbina, Caerdydd, CF14 6AN

# Ysgol Plasmawr

1999 – Agor ail Ysgol Uwchradd Gymraeg yng Nghaerdydd.

2019 – Ugain mlynedd yn ddiweddarach, mae llu o ddisgyblion wedi bod drwy'r drysau, wedi cael profiadau anhygoel ac wedi cael addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn ein prifddinas. Eleni, trefnir nifer o ddigwyddiadau i ddathlu'r garreg filltir hon, gydag un 'prif' ddigwyddiad bob tymor, gan ddechrau gyda'r Gyngerdd Nadolig: ***Oncôr!***

Cynhaliwyd *Oncôr* yn Neuadd Dora Stoutzker, Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru ar ddiwedd mis Hydref. Dathliad oedd *Oncôr* o 20 mlynedd o sioeau cerdd yr ysgol, yn cynnwys detholiad o ganeuon a pherfformiadau o'r sioeau cerdd *Yr Academi, Saim, Pum Diwrnod o Ryddid, Jiwdas, Joseff a'r Gôt Amryliw, Nôl i'r 80au, Les Miserables, Olifyr, Swyn y Gân, Cysgu'n Brysur, Sweeney Todd* a *Mynd a Dod*. Cafwyd perfformiadau arbennig a chofiadwy gan gorau iau a hŷn yr ysgol, côr staff a chyn-ddisgyblion, yr *ensemble jazz* a nifer o unawdwyr talentog. Gorffennwyd gyda pherfformiad gan bawb o'r gân 'Fory Ddaw' o'r sioe *Les Mis*. Diolch yn fawr iawn i bawb a gymrodd ran ac a gefnogodd y gyngerdd fythgofiadwy ac arbennig hon.

### Gwahoddiad!

Fe'ch gwahoddir i Ginio Mawreddog i ddathlu penblwydd Plasmawr yn 20 oed ar 5 Ebrill 2019 yng Ngwesty'r Exchange, 4-5 Sgwar Mount Stuart, Caerdydd CF10 5FQ Cyflwynydd y noson - Jason Mohammad; Adloniant gan Eden - Footloose. Byrddau o 10! Cysylltwch â levans@ysgolplasmawr.cymru £45

### Gŵyl Plasmawr

Bwriedir cynnal Gŵyl Plasmawr yn ystod tymor yr haf – cadwch eich llygaid ar y cyfryngau cymdeithasol i gael gwybod mwy – dyw e ddim yn gyfrinach, ond mi fydd yn werth chweil!

# Hanes Cynnar Addysg Gymraeg ym Mro Morgannwg

Rhaid cofio'r arloeswyr yn y pumdegau a lwyddodd i sefydlu ysgol a darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg mewn talgylch Saesneg ei hiaith.

Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ym 1951. Ymhlith y rhai fu'n bresennol roedd rhai o fawrion y genedl - Aneurin Talfan Davies, Dan Evans, E. Hall Williams, Glyn Ashton, Dr Edgar Jones, T. Raymond Williams, Gwynallt Evans, Nora Isaac. Danfonwyd cynrychiolaeth i ddarbwyllo Cyngor Sir Forgannwg i sefydlu Ysgol Gynradd Gymraeg yn Y Barri.

Dechreuwyd gyda 15 o blant mewn festri capel yn Nhregatwg. Doedd dim byrddau na chadeiriau addas, dim llyfrau nac offer. Roedd y babanod yn y festri, a'r dosbarth hŷn mewn ystafell dywyll danddaearol. Dyma blannu'r hedyn, â dyfodd yn Ysgol Sant Ffransis (cyn-gapel agorodd ym Medi 1956 gyda 62 o blant). Roedd dau ddosbarth yn y prif adeilad a ffreutur yn y festri. Tybiai'r Awdurdod Addysg na thyfai'r ysgol fyth yn fwy na dau ddosbarth!

Mewn amrantiad roedd angen ychwanegiad ac adeiladwyd ystafell wrth ymyl y festri yn 1961 ac ym 1966 agorwyd Uned i'r babanod yng Nghoed yr Odyn gerllaw Parc Porthceri, ond fe lenwodd i'r ymylon eto.

Awgrymodd yr Awdurdod Addysg symud ambell ddosbarth nôl i'r ystafell danddaearol, ond gwrthodwyd hynny; ac fe gludwyd adeilad *pre-fab* o Sir Feirionnydd, a'i godi gan y rhieni ar safle chwarae Coed yr Odyn.

Ymhen amser symydwyd plant i Cogan ac ysgol newydd sbon Pen y Garth, ac eraill i Maindy; agorwyd Ysgol Iolo Morganwg yn Y Bontfaen; ac yn y Barri agorwyd Ysgol Gymraeg Sant Baruc. Yn ddiweddach agorwyd Ysgolion Sant Curig, Gwaun y Nant, Bro Morgannwg ac Ysgol Dewi Sant.

Nid oedd yr adnoddau na'r adeiladau yn berffaith ond roedd y rhieni, yr athrawon, a'r llywodraethwyr yn barod i roi o'u gorau i roi cyfle i blant Bro Morgannwg.

Heddiw, diolch i'r ymroddiad a'r weledigaeth mae 2690 o blant yn derbyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg mewn 7 ysgol gynradd ac 1 ysgol uwchradd ym Mro Morgannwg. A mwy i ddod!

*(Gweler llun ar y clawr o grŵp Cân Actol Ysgol St Ffransis c 1966)*

---

# Cyfraniad 'Syfrdanol' IOLO MORGANWG

Bydd cofiannydd ac arbenigwr ar Iolo Morganwg, yr Athro Geraint H. Jenkins, yn ymweld â'r Bontfaen mis Mawrth i ddarlithio ar gyfraniad 'syfrdanol' y gwrthryfelwr radical, ac un o feibion enwocaf y Fro.

Cyhoeddwyd *Y Digymar Iolo Morganwg* (Y Lolfa) gan yr Athro Geraint H. Jenkins yn mis Hydref 2018. Mae'r gyfrol yn gofiant cynhwysfawr – y cyntaf i'r 'Cymro mwyaf diddorol a fagwyd erioed yng Nghymru.' Mae'r gyfrol hon yn cynnig portread cyffrous newydd o athrylith Iolo Morganwg ac yn beirniadu academyddion sydd wedi tanbrisio cyfraniad y dyn fel gwleidydd, gwladgarwr a gweledydd yn ystod y ddwy ganrif ddiwethaf.

Bydd y sgwrs a drefnwyd ar y cyd â Llyfrgell Y Bontfaen, cangen leol Merched y Wawr ac awdur lleol Gareth Thomas, sydd hefyd gyda diddordeb mawr yn Iolo Morganwg a sydd wedi cyhoeddi nofel am y cymeriad diddorol – *Myfi, Iolo* a fersiwn Saesneg sef *I, Iolo* (Y Lolfa).

Bydd y sgwrs yn trafod rhai o'r syniadau a gyhoeddwyd yn y gyfrol. "Dim ond un rhan o gyflawniadau Iolo yw ei ffugiadau a thrwy obsesiynu ynghylch y rheini collwn olwg ar ei gyfraniad syfrdanol fel gwleidydd, llenor, hanesydd, gweledydd a gwladgarwr," meddai Geraint H. Jenkins. Mae'r gyfrol a gyhoeddir gan wasg Y Lolfa yn clodfori gwaith Iolo Morganwg fel ffugiwr llenyddol penigamp, bardd godidog a gweriniaethwr tanbaid. Roedd yn Undodwr digymrodedd, yn elyn pennaf i ryfelgarwch a chaethwasiaeth. Gweithiodd trwy gydol ei oes fel saer maen, ym Morgannwg a Lloegr, yn aml mewn tlodi enbyd, a daeth yn enwog fel hynafiaethwr, bardd a radical.



***Yr Athro Geraint H Jenkins***

Bydd y ddarlith am 7pm nos Iau 21ain o Fawrth yn Llyfrgell Y Bontfaen. Bydd lluniaieth ysgafn ar gael a chyfle i brynu'r gyfrol ar y noson gan siop lyfrau leol – The Cowbridge Bookshop. Croeso mawr i bawb!

Mae *Y Digymar Iolo Morganwg* gan Geraint H Jenkins ar gael nawr (£14.99, Y Lolfa).

---

# Y Cyfryngau Cymdeithasol

**Cadwch mewn cysylltiad â'r Dinesydd ar Twitter trwy ddilyn ein cyfrif newydd @DinesyddCdydd, ac ar Facebook trwy ddilyn www.facebook.com/YDinesydd**

# Addysg Gymraeg – Twf yn y Sector Uwchradd

Eleni bydd Glantaf yn derbyn y rhif llawn o 240, ac efallai fwy am fod 252 disgybl wedi gosod Glantaf fel eu dewis cyntaf. Mae 189 wedi dewis Plasmawr. Y nifer sy'n dewis Bro Edern yw 156. Felly y cyfanswm i dderbyn addysg uwchradd Gymraeg ar draws y ddinas fydd 597; 3 yn fyr o'r mynediad posibl o 600 a hyn heb gymryd i ystyriaeth ail ddewisiadau. Os bydd y disgyblion dros ben yng Nglantaf a Phlasmawr yn fodlon mynd i Fro Edern bydd honno hefyd bron yn llawn neu bydd angen i'r sir ofyn i'r ddwy ysgol arall dderbyn nifer dros y Rhif Safonol Mynediad. Ni fydd hyn yn broblem i Lantaf am ei bod hi wedi derbyn llai na'r cyfanswm ers 2012.

Croesawir derbyn y nifer llawn yng Nglantaf am ei fod yn golygu cyllid yn cyfateb yn nês i lefel y staffio er bydd angen sawl blwyddyn o dderbyn ar yr un lefel i wneud yn iawn am hyn. Yn sicr bydd angen trefn gwell ar gyfer ceisiadau yn 2020 ac mae'n eithaf sicr bydd angen helaethu'r ddarpariaeth erbyn 2022 ac nid ar ôl 2025 fel yr oedd y Cyfarwyddwr yn dadlau.

Dim ond gwybodaeth am un ysgol gynradd ddaeth i law sef Penypil lle mae 26 disgybl wedi enwi'r ysgol fel eu dewis cyntaf, a 26 ychwanegol fel ail neu drydedd dewis (heb wybod beth oedd y dewis cyntaf, Ysgol Gymraeg arall neu Ysgol Saesneg.)

Roeddwn wedi gobeithio datgelu lleoliad a maint yr ysgolion newydd ar gyfer Plasdwr (neu Rhydlafar) ond ni fu cyhoeddiad ym mis Ionawr yn ôl yr addewid cyntaf, a'r dyddiad arfaethedig nawr yw "spring". Nid oes newyddion ychwaith am fanylion ymestyn Mynydd Bychan neu adleoli Nant Caerau a Phenypil, y tair i dyfu o ysgolion un ffrwd i ddwy ffrwd.

*Michael Jones*

# Lansio Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Caerdydd a'r Fro

Ar 1 Chwefror, yng Nghanolfan Mileniwm Cymru yng nghwmni plant a phobl ifanc y brifddinas, lansiwyd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Caerdydd a'r Fro 2019. Ddegawd ers cynnal Eisteddfod yr Urdd ym Mae Caerdydd yn 2009, bydd yr ŵyl yn dychwelyd i'r Bae rhwng 27ain o Fai a'r 1af o Fehefin eleni.

**Bandiau Braich nawr ar werth**

Eleni, am y tro cyntaf, bydd mynediad i'r Maes am ddim i bawb. Bydd angen i oedolion sy'n dymuno gwylio'r cystadlu - Rhagbrawf neu y Pafiliwn brynu Band Braich. Mae rhain ar gael nawr am bris gostyngol o £13 tan ddiwedd Ebrill drwy ddilyn y ddolen www.urdd.cymru/tocynnau-eisteddfod neu ffonio Llinell Docynnau Canolfan Mileniwm Cymru ar 029 2063 6464**.** Ni fydd angen bandiau ar blant a phobl ifanc (dan 18 oed) a bydd bandiau am ddim i gystadleuwyr.

Yn ystod wythnos yr Eisteddfod, bydd 15,000 o blant a phobl ifanc yn cystadlu mewn amryw gystadlaethau. Hefyd, bydd sesiynau chwaraeon, wal ddringo, sioeau i blant, ffair, cerddoriaeth fyw a dros 80 o stondinau ar y Maes. Gyda'r nos bydd y cystadlu a'r perfformio'n parhau gyda chyngherddau a sioeau.

Meddai'r Cynghorydd Huw Thomas, Arweinydd Cyngor Caerdydd: "Roedd Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd y llynedd yn estyn croeso i bawb. Mae Eisteddfod yr Urdd yn siŵr o adeiladu ar hyn gan gyfrannu at wneud Caerdydd yn ddinas wirioneddol ddwyieithog."

Ychwanegodd Aled Siôn, Cyfarwyddwr Eisteddfod yr Urdd, "Ein nod yw dychwelyd i'r brifddinas unwaith yn oes ysgol pob plentyn er mwyn rhoi'r cyfle i holl blant a phobl ifanc Cymru gael y wefr o berfformio ar lwyfan genedlaethol Canolfan Mileniwm Cymru.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Sioned Wyn ar 01239 652 164 / 07976 330361 / sionedwyn@urdd.org

***Yn y llun y mae Eluned Morgan AC, Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol; Dyfrig Davies, Cadeirydd Urdd Gobaith Cymru; Siân Lewis, Prif Weithredwr Urdd Gobaith Cymru; y Cynghorydd Huw Thomas, Arweinydd Cyngor Caerdydd a phobl ifanc o Gaerdydd a'r Fro.***



# Clwb Gwawr Penarth

**Sefydlu Clwb Gwawr ym Mhenarth**

Mae'n gyfnod cyffrous ym Mhenarth, wrth i glwb newydd gael ei sefydlu. Daeth criw o fenywod at ei gilydd cyn y Nadolig i drafod sefydlu Clwb Gwawr, er mwyn rhoi cyfle i ferched yr ardal ddod at ei gilydd i gymdeithasu a phrofi amrywiaeth o weithgareddau drwy'r Gymraeg.

Cafodd y cyntaf o'r nosweithiau hynny eu cynnal nos Fawrth yr 19eg o Chwefror, pan gafodd y menywod flas o waith hynod ddifyr Alison Vaughan Jones. Mae Alison yn arbenigo ar Laser aesthetig a'r croen ac yn gweithio o'i chlinig ym Mhenarth. Cafodd y criw ddysgu llawer am y croen, a sut mae triniaeth laser yn gallu helpu amrywiaeth o gyflyrau. Mae hi hyd yn oed yn gallu gwaredu tatŵ os ydych yn difaru cael un!

Yn dilyn hynny, fe fwynheuodd y merched bryd o fwyd blasus ym mwyty Twrcaidd Keyif yn y dref. Noson gyntaf lwyddiannus felly, ac mae digwyddiadau wedi eu trefnu'n fisol tan yr haf - y nesaf o'r rheiny fydd cwis yng nghaffi Foxy's ym mis Mawrth.

Os oes diddordeb gan unrhyw un i ymuno, mae gan y clwb dudalen ar Facebook, a gallwch gael gwybodaeth gan gwenlliangrigg@hotmail.com.



# Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Ar nos Lun 18 Chwefror 2019 cawsom ddarlith ddiddorol iawn gan Rhidian Thomas o Brifysgol Caerdydd ar *'Gwasgariad Rhywogaethau Dŵr Croyw Ymledol ym Mhrydain'* neu sut mae anifeiliaid diarth yn llwyddo i sefydlu mewn llefydd newydd. Treuliodd Rhidian yr wyth mlynedd ddiwethaf ym Mhrifysgol Caerdydd lle gwnaeth ei ddoethuriaeth gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Cyfieithiad o *'invasive'* yw ymledol ac mae'n disgrifio fel mae rhywogaeth anfrodorol yn cael effaith ar yr amgylchedd, yr economi a iechyd dynol.

Nid yw pob rhywogaeth anfrodorol yn ymledol, dim ond tua 1% ohonynt sydd yn broblem. Rhoddodd Rhidian nifer o enghreifftiau o rywogaethau ymledol, a daeth â chimwch yr afon (*crayfish*) marw a chranc manegog Tsiena marw i'r cyfarfod mewn jar. Efallai yr enghraifft fwyaf enwog yw cwningod a ddaeth i Brydain gyda'r Rhufeiniaid ac sydd wedi achosi dinistr ar draws y byd yn enwedig yn Awstralia. Y rhywogaeth mwyaf dinistriol wrth gwrs yw pobl. Ond fe wnaethon ni ganolbwyntio ar rywogaethau dŵr croyw yn y cyfarfod yma.

Mae ceisio atal ymlediad rhywogaethau yn broblem byd-eang, ond mae enghreifftiau i'w cael ym Mae Caerdydd gyda'r gragen las resog (*zebra mussel*) a'r berdysen rheibus (*killer shrimp*) yn effeithio ar ecosystem y Bae. Yn ogystal a chystadlu am fwyd mae'r rhywogaethau ymledol yn dod â heintiau a pharasitiaid estron gyda nhw. Nododd Rhidian ei bod hi'n anodd iawn gwaredu rhywogaethau ymledol unwaith iddyn nhw sefydlu, ond fe all technoleg newydd fel technegau genetig a droniau helpu. Dyma frwydr ddi-ddiwedd sy'n costio biliynau o bunnoedd bob blwyddyn ond rhaid ymladd neu byddwn yn colli ein hamrywiaeth naturiol presennol heb obaith o'i gael yn ôl. Am fwy o wybodaeth gweler yr erthygl isod.

John Rhidian Thomas a Siân W. Griffiths, '*Anifeiliaid ymledol a'u heffeithiau ar ecosystemau dŵr croyw Prydain*', Gwerddon, 25, Hydref 2017, 7–29 yn www.gwerddon.org



# Merched y Wawr Caerdydd

Brodor o Bennant, Ceredigion, yw Cyril Jones, enillydd Coron Eisteddfod Genedlaethol Aberystwyth 1992. Darlithydd ar Ysgrifennu Creadigol ym Mhrifysgol Morgannwg yw e ar hyn o bryd. Dewisodd sôn am *Y Menywod yn fy Machgendod* yng nghyfarfod y gangen ar 12 Chwefror. Oni allai ei fam fod wedi dewis enw arall arno? Gallai: Seymour. Dyna fodloni ar Cyril!

Mawrygai'r fraint o fagwraeth mewn pentre lle'r oedd pob haen cymdeithas yn byw ochr yn ochr. Soniodd am y ddwy Miss Jones yn yr ysgol gynradd. "Ni chofiaf weld gwg ar ei hwyneb erioed", meddai am un, a chyflwynodd y llall ei dosbarth i farddoniaeth beirdd lleol. Menyw gadarn, ddi-lol, ddiwylliedig a wasanaethodd y fro am ddeugain mlynedd oedd honno. Hi sy'n gyfrifol am y gyfrol werthfawr, *Llysiau Llesol,* a sawl un arall ar hanes y fro.


Cyril, Mallt a Non

Drws nesaf i'w gartref, trigai Miss Jenkins, Cartrefle, cyn-Arolygwr ei Mawrhydi, a gwraig arall ddiwylliedig. Ymysg ei gorchestion, cofir hi am ei chyflwyniad disglair i ail gyfrol barddoniaeth Isfoel. Deuai Aneurin Talfan Davies a'i deulu i aros yng Nghartrefle.

Menyw wahanol oedd Mari Berllan Pitar a drigai ym Mhennant ar ddechrau'r ugeinfed ganrif. Tybid mai gwrach oedd Mari a bod ganddi'r gallu i reibio. Adroddodd Cyril sawl hanesyn digon brawychus am ei gweithgareddau honedig, hanesion a drosglwyddwyd o genhedlaeth i genhedlaeth. Menyw'n byw ar ei phen ei hunan oedd hi, tlotyn mewn angen dirfawr.

Noson dda oedd hon, noson ddiddorol, addysgiadol a hwyliog dros ben. Mae'r gangen yn golygu ymuno yn ymgyrch y Llywydd Cenedlaethol i gasglu sbwriel. Efallai y gwelir ambell i aelod wrthi'n clirio strydoedd ein dinas cyn bo hir!

Cydymdeimlwyd yn ddiffuant â Rosina Davies, un o gyn-ysgrifenyddion y gangen, yn ei galar ar ôl colli Tom, ei phriod, y bu mor ofalus ohono.

# Merched y Wawr Bro Radur

Braf oedd cael croesawu Jên Dafis, ein Swyddog Rhanbarth a Hannah Roberts, ein gwestai i'n cyfarfod fis Chwefror. Prin oedd angen cyflwyno Hannah gan ei bod yn siaradwraig boblogaidd gyda nifer o gymdeithasau yn y brifddinas. Un o ddiddordebau Hannah yw casglu pethau a daeth â chasgliad arbennig o gadeiriau bychain ac un goron arian gyda hi i'r cyfarfod, tlysau roedd hi wedi eu hennill. 'Ishte Lawr' oedd testun ei sgwrs a chawsom ei hanes yn dechrau barddoni rhyw saith mlynedd yn ôl. Efallai fod ei llwyddiant yn rhannol oherwydd dylanwad ei thadcu oedd yn barddoni yn y dafarn leol yn Nhreboeth gyda Gwyrosydd, awdur yr emyn poblogaidd 'Calon Lân.'

Ar ei hymgais gyntaf yn yr Eisteddfod Genedlaethol llwyddodd i gael dosbarth cyntaf gyda cherdd ar y testun *Gwythiennau*. Ers hynny enillodd tua ugain o gadeiriau ac un goron mewn eisteddfodau lleol ledled Cymru. Darllenodd ambell gerdd i ni, ond cawsom y fath bleser o glywed Hannah yn disgrifio o ble daeth yr ysbrydoliaeth ar gyfer y cerddi, a bu'n adrodd y stori tu cefn i gerddi neilltuol. Yn amlwg mae ganddi ddawn dweud stori, rhai yn ddirdynnol ond eraill yn gwneud i ni chwerthin. Diolchwyd i Hannah am noson ddifyr a gwahanol iawn.

Atgoffwyd pawb o'r Ŵyl Wanwyn a drefnir gan y gangen ar bnawn Sadwrn, 4ydd o Fai rhwng 2.30 – 4.30 yng Nghwrt Insole, Llandâf. Trefnir adloniant gan Ann (telyn) a Mehefin (acordion) ac yna bydd te pnawn blasus i ddilyn am bris rhesymol o £5. Mae modd archebu tocyn drwy gysylltu ag Ann Lewis (029 20564339) neu Ruth Davies (029 22211407). Dewch i gefnogi ac i gymdeithasu.


Ruth Davies a Hannah Roberts

# Merched y Wawr
# Y Bontfaen

Ein gwestai ym mis Chwefror oedd Gillian Green a benderfynodd yn blentyn ifanc ei bod am ganu'r delyn a chyrhaeddodd ei nod. Bu'n athrawes telyn ym Morgannwg Ganol am rai blynyddoedd. Ym 1990 fe'i penodwyd yn Gyfarwyddwr Live Music Now (LMN) Cymru.

Un o sylfaenwyr LMN oedd Yehudi Menuhin gyda'r bwriad o fynd â cherddoriaeth o safon uchel at y rhai hynny nad yw hi'n hawdd iddynt fynd i gyngherddau – yr henoed, carcharorion, cleifion a phlant ag anghenion addysg ychwanegol. Mae LMN hefyd yn cynnal a chefnogi cerddorion ifanc talentog ar adeg bwysig iawn yn eu gyrfa.

Mae Gillian wedi teithio'r Deyrnas Unedig yn cynnal clyweliadau gan osod safonau uchel a chynnig y gynhaliaeth angenrheidiol i'r cerddorion ifanc. Trefnodd dros 5,000 o berfformiadau ar hyd a lled y wlad. Yn ogystal â hyn cyd-sefydlodd Urdd Telynau Morgannwg a gweithio fel Cyfarwyddwr Gŵyl Gerdd Cricieth ac Abergwaun ac fel aelod o'r panel sy'n cynghori'r Tywysog Charles ar ei ddewis o Delynor Brenhinol.

Ymddeolodd o'i swydd fel Cyfarwyddwr LMN Cymru yn 2014 ond deil yn Gyfarwyddwr Clyweliadau i'r elusen. Yn 2015 derbyniodd yr MBE am chwarter canrif o ymroddiad diflino i LMN Cymru. Dwedwyd ar y pryd bod LMN Cymru yn un o'r ychydig elusennau diwylliannol sy'n gweithredu ymhob sir yng Nghymru a bod hynny o ganlyniad i frwdfrydedd ac ymroddiad Gillian i ddarganfod a mentora cerddorion ifanc. Hefyd yn 2015 derbyniodd Wobr Sefydliad Bryn Terfel gan Fforwm Gofal Cymru a roddir i'r bobl hynny sy'n gweithio'n ddiflino ym maes gofal.

Cawsom hanesion hynod o ddifyr gan Gillian o'r dylanwadau fu arni, o'i magwraeth yng Nghricieth i uchafbwyntiau ei gyrfa lle cafodd gydweithio â mawrion y byd cerdd yn rhyngwladol. Diolchwyd i Gillian gan Cath Thomas a fu'n athrawes Ysgol Sul arni yn ferch fach yng Nghricieth.



# Merched y Wawr
# Y Barri

Cafwyd cyfres o siaradwyr diddorol iawn yn ymweld a'r gangen ac roedd eu dewis o destunau yn amserol a difyr.

Soniodd Yvonne Scott, sy'n enedigol o'r Barri, am gyfnod helaeth o'i gyrfa yn Ysgol Mount Stuart yn Nociau Caerdydd. Roedd yr ysgol yn gartref i blant o bedwar ban byd ac arferid clywed wyth neu naw o ieithoedd yno, gan gynnwys y Gymraeg a'r Saesneg. Byddai'r ysgol yn dathlu arferion a thraddodiadau'r holl genhedloedd o dan arweiniad y brifathrawes Betty Campbell. Oherwydd lleoliad a chymdeithas liwgar Ysgol Mount Stuart byddai'r ysgol yn croesawu rhes o ymwelwyr, yn sêr amlwg, gwleidyddion, aelodau'r teulu brenhinol ac ymwelwyr o dramor. Diddorol yw nodi mai cofgolofn o Betty Campbell a ddewiswyd i nodi cyfraniad Merched yng Nghymru, y cyntaf o nifer gobeithio.

Pan ddaeth Eirlys Davies, Penarth atom, i ddangos ei gwaith brodio manwl a chain, cawsom wledd i'r llygaid. Mae Eirlys yn arbenigo mewn arddull pwytho a elwir yn Trapunto. Ei hoff ddewis o ddefnydd yw patrymau o flodau Siapaneaidd. Dangosodd i ni waith hyfryd a baratodd yn rodd i'w heglwys, Bethel Penarth ac un arall yn rodd i Gapel Tabernacl y Barri. Mae'r ddau lun yn dangos cae yn llawn o'r pabi coch mwyaf trawiadol.

Mae'r Parchedig Kevin Davies yn ymwelydd rheolaidd a'r gangen yn arddangos ei ddawn o osod blodau ar gyfer y Nadolig. Daeth a hanes a medalau ei Ras Farathon yn Efrog Newydd ym mis Tachwedd llynedd. Braf oedd cael cyffwrdd a'r medalau! Dyna'r agosaf i lawer ohonom i fod yn rhan o unrhyw ras farathon!



*Kevin Davies*

Roedd hi'n hynod o ddiddorol i glywed Dorinda Pugh yn son am waith ei diweddar ŵr, Vernon Pugh. Yn gyfreithiwr yn ôl ei alwedigaeth fe fu Vernon Pugh yn gyfrifol am drawsnewid Rygbi'r Undeb o fod yn sbort amatur i sbort proffesiynol. Bu'n amlwg yn gwahodd tîm yr Eidal i ymuno yng Nghystadleuaeth y Chwe Gwlad. Roedd yn ddylanwad ym myd rygbi yn fyd-eang.

# Cymrodorion Caerdydd

'Archif Menywod Cymru' oedd pwnc cyflwyniad Catrin Stevens i gyfarfod Chwefror o Gymrodorion Caerdydd. Fel yr eglurodd Catrin, ni fu teitl y mudiad heb ei broblemau.

Yn y lle cyntaf, nid archif yn yr ystyr o gasliad o ddogfennau hanesyddol yw Archif Menywod Cymru, ond yn hytrach math o gyfnewidfa gan wirfoddolwyr i gofnodi adnoddau a chyfeirio ymchwilwyr atynt – 'rhith archif' mewn gwirionedd. Problem arall gyda'r teitl oedd pa air i'w ddewis i gyfateb i 'women' yn y teitl Saesneg - nid oedd y gair 'merched' yn dderbyniol gan bawb.

Aeth Catrin ymlaen i sôn am bedwar o weithgareddau'r Archif, sef Sioeau ar Daith (2008-10); 'Menywod, Cymru a Rhyfel'; 'Lleisiau o lawr y Ffatri 1945-75'; a 'Canrif Gobaith 1918-2018'.

Un Sioe ar Daith a roddodd gyfle i ymwelwyr gyfnewid lluniau a phrofiadau oedd y sioe am Gomin Greenham, gan ei bod yn trafod digwyddiad cyfoes.

Profiadau menywod ganrif yn ôl oedd thema 'Menywod, Cymru a Rhyfel'. Gwyddom oll am aberth enbyd y dynion yn ystod y Rhyfel Mawr, ond erys anwybodaeth dybryd am gyfraniad sylweddol menywod. Bu'n obsesiwn gan Catrin am gyfnod i ddarllen pob cofeb ryfel a welai i ddarganfod a chofnodid enwau menywod arnynt. Soniodd Catrin am waith nifer o fenywod a wasanaethodd yn y rhyfel fel meddygon a nyrsus.

Clywsom, yn llythrennol, leisiau menywod yn trafod eu profiadau mewn diwydiant a recordiwyd fel rhan o 'Lleisiau o lawr y ffatri'. Roedd yna hiwmor, wrth gwrs, ond rhywbeth i gywilyddio amdano oedd adwaith rhai yn y gweithlu gwrywaidd yn ffatri Hoover, Merthyr, i bolisi'r cwmni i sicrhau cydraddoldeb cyflog i fenywod am wneud yr un gwaith â dynion.

Dathlu canrif ers pasio deddf ymestyn y bleidlais i fenywod a wna 'Canrif y Gobaith 1918-2018'. A'r prosiect diweddaraf yw recordio'r menywod a etholwyd i'r Cynulliad.

# Cylch Cinio Cymry Caerdydd

Ddechrau Chwefror croesawyd Elin Jones AC, Llywydd Cynulliad Cymru atom. Merch o Lanwnnin, Ceredigion yw Elin, aeth i'r ysgol gynradd leol ac i Ysgol Uwchradd Llanbedr-Pont-Steffan; ac yna i Golegau Prifysgol Cymru Caerdydd ac Aberystwyth, gan ennill grâdd meistr mewn Economeg Cefn Gwlad. Cyn ei hethol i'r cynulliad ym 1999 roedd Elin yn Swyddog Datblygu Economaidd i Fwrdd Datblygu Cymru Wledig. Bu'n aelod o Gyngor Tref Aberystwyth (1992 -1999), a hi oedd Maer ieuengaf y dref ym 1997/1998. Dylanwadodd ei hewythr arni yn ei harddegau gan ddeffro ei diddordeb mewn gwleidyddiaeth; ac fe enillodd ffug-etholiad yr ysgol dros y Ceidwadwyr ym 1983! Ond ym 1992 dan ddylanwad Cynog Davies ymunodd Elin â Phlaid Cymru.

Fel Aelod o'r Cynulliad llanwodd Elin Jones swyddi dylanwadol dros yr wrthblaid ym meysydd datblygu economaidd a'r amgylchedd, cynllunio a chefn gwlad. Pan sefydlwyd Llywodraeth Cymru'n Un yn 2007 penodwyd hi'n Weinidog Materion Cefn Gwlad. Canlyniad ei llwyddiant yn y swydd hon oedd ennill gwobr yr NFU fel Pencampwr Ffermio ym Mhrydain yn 2009, yn ogystal ag ennill tlws Aelod Cynulliad y Flwyddyn.

Pwysleisiodd Elin bwysigrwydd gweithio'n galed dros ei hetholwyr a gwrthod eistedd ar y ffens pan gyfyd materion dadleuol fel dicáu mewn gwartheg a difa moch daear, yn wyneb lobi gref gwarchod anifeiliaid.

Soniodd am Millicent McKensie, y ferch gyntaf i sefyll etholiad seneddol yng Nghymru ym 1918. Bu'n frwydr barhaus i ferched drwy'r ganrif ddiwethaf i gael eu derbyn fel ymgeiswyr seneddol. Dadleuodd Elin i'r Cynulliad Cenedlaethol greu mwy o gyfle i ferched sefyll etholiad yng Nghymru; fel Jane Hutt ac Edwina Hart fu'n Weinidogion tra fu'r ddwy yn Aelodau o'r Cynulliad.

Cyfrifoldeb ar Elin Jones fel Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol fydd cyflwyno deddfwriaeth i newid yr enw o 'Cynulliad' i 'Senedd'; cynyddu'r nifer o aelodau oherwydd pwysau'r gwaith; a gostwng yr oedran pleidleisio i 16.

*(gweler llun ar y clawr)*

# Cymdeithas Edward Llwyd

**I'R RHAI SY'N HOFFI CERDDED**

Bydd taith gerdded yn ardal Mynydd y Grug ger Caerffili ar ddydd Sadwrn, 13 Ebrill. Cyfarfod ym maes parcio Navigation Street ger ysgol gynradd Tŷ'n y Wern, Trethomas er mwyn dechrau'r daith am 10.30. Croeso mawr i Gymry Cymraeg a dysgwyr. Dim cŵn os gwelwch yn dda. Cod post CF83 8FL grid ST 180888.

Gwybodaeth llawn :
www.cymdeithasedwardllwyd.cymru/gweithgareddaur-de/

Bydd taith gerdded yn ardal Parc Piercefield, Cas-Gwent ar ddydd Sadwrn y 27ain Ebrill. Cyfarfod ym maes parcio Canolfan Hamdden Cas-Gwent, Welsh Street (ar safle'r Ysgol Gyfun) er mwyn dechrau'r daith am 10.30. Croeso mawr i Gymry Cymraeg a dysgwyr. Dim cŵn os gwelwch yn dda. Cod post NP16 5LR neu grid ST 527944.

Gwybodaeth llawn:
www.cymdeithasedwardllwyd.cymru/gweithgareddaur-de

# Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina

Croesawyd Siân Lewis, Prif Weithredwr brwd ac egniol yr Urdd, ar 18 Chwefror. Un o blant y ddinas yw Siân a dderbyniodd ei haddysg yn ysgolion Bryntaf a Glantaf ac wedyn yng Ngholeg Tredelerch. Cyfrannodd at lwyddiant sawl mudiad ond nawr dyma'i "swydd ddelfrydol".

Dymunai glywed am gysylltiad y rhai oedd yn y cyfarfod â'r Urdd. Bu sôn am eisteddfodau, am wersylla ac am orchestion. Roedd gan Siân ystadegau syfrdanol i'w rhannu. Yn eu plith, fod gan y mudiad ddeng mil o wirfoddolwyr a'i fod yn cyflogi 308 o staff. Cafwyd gwybod bod yr Urdd bellach yn gyflogwr busnes o bwys ac i hynny ddod i sylw adran fusnes y *Western Mail*. Sicrhawyd tair miliwn o bunnoedd gan Gynulliad Cymru a'r Urdd ei hunan wedyn yn cyfrannu tair miliwn arall. Bydd hyn yn galluogi'r mudiad i fuddsoddi ymhellach yn Llangrannog a Glan-llyn, "ar gyfer plant soffistigedig heddiw!" Mae'r Urdd yn darparu wyth gant o gyrsiau iaith a deg ar hugain o brentisiaethau chwaraeon ac yn cydweithio ag Undeb Rygbi Cymru. Mae gan Siân gynlluniau diddorol yn ymwneud ag ehangu defnydd o'r Neges Heddwch ac Ewyllys Da a datblygu hefyd ddarpariaeth ddigidol y mudiad.

Â Chymru'n wlad mor dlawd ac amddifadedd yn niweidio ei phlant - da oedd clywed bod *Cronfa Cyfle i Bawb* wedi'i sefydlu ar gyfer ariannu wythnos yn y gwersyll i blant difreintiedig. Adroddodd Siân ddwy stori oedd yn darlunio mor llesol yw wythnos o wyliau i blentyn anghenus, straeon oedd yn ddigon i dorri'ch calon. £160 sydd ei angen i sicrhau y caiff plentyn wythnos yn Llangrannog.

Bydd yr Urdd yn dathlu canrif yn 2022 a da gwybod fod y mudiad yn nwylo diogel Siân a'i staff.

Cydymdeimlwyd yn fawr â Rosina a Mair yn eu hiraeth ar ôl Tom a Cliff.

## Gardd Berlysiau'r Bontfaen

### Carys Whelan

Dewch am dro i ardd fach gudd yng nghanol tre'r Bontfaen. Mae'r drws derw siap bwa yn ein denu i mewn i fyd sy'n bell o sŵn a phrysurdeb y stryd fawr. Eisteddwch ar un o'r meinciau a synhwyro'r persawr a'r harddwch – mae yma rywbeth i'w fwynhau gydol y flwyddyn, o'r bylbiau cyntaf i liwiau'r hydref hwyr.

Hen ardd newydd yw hon, hanner erw o bamau taclus, planhigion diddorol, rhosod a choed. Dros ddeng mlynedd yn ôl, crewyd yr ardd ar safle hen ardd furiog yr Hen Neuadd, cartre'r teulu Edmondes am dros ddwy ganrif. Mae'r llwybr yn dilyn llinell y byddai'r boneddigion yn ei ddefnyddio i gyrraedd Eglwys y Grog gyferbyn.

Canolbwynt yr ardd yw'r dwsin o welyau o blanhigion meddyginiaethol sydd wedi'u gosod ar siâp olwyn, a'r ffynnon yn y canol yn denu'r llygad – a cheiniogau'r ymwelwyr. Dyma lafant a saets, erwain a dant y llew, gold Mair a'r wermod wen, wedi eu trefnu yn ôl yr anhwylderau y caent eu defnyddio i'w iachau.

Ond mae mathau'r planhigion sydd yma'n rhan o awyrgylch yr ardd hefyd. Gosodir cyfnod y cynllun newydd drwy ddefnyddio planhigion a oedd ar gael cyn 1800: dyddiad yr ardd wreiddiol. A hynny sy'n rhoi'r naws arbennig i'r lle – does dim byd llachar yma. Mae'r lliwiau'n dawel, a blodau fasech chi'n eu galw'n chwyn. Ond mae gan bob un ei stori ac roedd ei werth fel meddyginiaeth yn hysbys i'r cenedlaethau aeth o'n blaen.



Caiff Iolo Morganwg sylw hefyd – gan fod sawl un o'r pamau'n cynnwys y cwsglys, y pabi opium, gwelir pennill ar y wal yn clodfori'r cyffur yng ngeiriau Iolo: 'Thou faithful friend in all my grief …'.

Gofelir am yr ardd gan wirfoddolwyr, sy'n ymfalchïo yn y baneri gwyrdd blynyddol sy'n dynodi ei safon uchel fel gardd gyhoeddus. Mae'r llwybrau'n hygyrch i gadeiriau olwyn a bygis, a'r drysau ar agor o 9.00 tan 6.00 yn yr haf, a 10.00 – 4.00 yn y gaeaf. Chwiliwch am y wefan cowbridgephysicgarden.org

# Pobol y Rhigwm

Byddwch yn cofio mai'r dasg y tro diwetha i'r rhigymwyr oedd llunio pennill a allai fod yn limrig, yn driban neu'n bennill telyn, yn ymwneud ag Addunedau. Daeth cannoedd o gynigion i law, sy'n profi bod trigolion Caerdydd yn bwriadu rhoi'r gorau i'w harferion diog ac anwaraidd. Yn anffodus, does dim gofod yn y rhifyn hwn i'w cyhoeddi i gyd, felly dyma'r pennill buddugol yn unig.

Mae 'Dimegni' yn haeddu'r wobr am ei ddefnydd beiddgar o dor-mydr, lled-odlau a hualau confensiynau eraill. Gobeithio bydd ganddo/ganddi flynyddoedd o iechyd yn ogystal â barddoni o'i flaen/o'i blaen.

'Rôl dyddiol fil o stepiau
A syllu llai ar sgriniau,
Torri lawr ar siwgr,
Bwyta mwy o ffeibr –
Rhof heibio'r addunedau!
Dimegni

Y dasg ar gyfer y rhifyn nesaf yw cwpled caeth. Mae chwarter poblogaeth y brifddinas yn mynychu dosbarthiadau cerdd dafod, felly dylai hyn ddenu cystadleuwyr di-rif. Gofynnir am gwpled yn ymwneud â byd natur, felly digon o gyfle i chi rigymwyr/beirdd fynd i unrhyw gyfeiriad.

Fel bob amser, anfonwch eich cynigion at db.james@ntlworld.com
Sylwer mai rhyw ddeg diwrnod o amser sydd i gystadlu – er mwyn i ni allu cyhoeddi'r feirniadaeth yn y rhifyn nesaf. **Felly, os gwelwch yn dda, anfonwch eich cynigion erbyn 18 Mawrth.**
Bydd y gwobrau yr un mor hael ag arfer.

***Emyr Davies***

**Enillydd tasg rhif 18 yw**
**Val Scott, Yr Eglwys Newydd**

# Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd

Bu cyfarfodydd "mis bach" yn rhai gwahanol eu naws, un yn hogi atgofion ieuenctid llawer a'r llall yn ein tywys ar daith ddychmygol nepell o'r ddinas.

Dychwelodd Catherine Thomas, y Bontfaen i'r Aelwyd a mawr fu y croeso iddi. Bu yn drysorydd gweithgar yno a thywysydd ffyddlon i'w mam hyd at ei 100 oed. Un o ferched fferm o ardal y Bala ger Cerrigydrudion yng Nghwm Penanner yw hi. Soniodd yn fanwl am ei thad o Gapel Celyn fel englynwr a ymddiddorai mewn canu penillion a Gorsedd y Beirdd. Symudodd y teulu i fyw i'r Bala ac yna i Griccieth. Ymhyfrydai Cath yn yr Eisteddfod leol a chenedlaethol ar hyd yr amser. Ymfalchiai yn y ffaith iddi fod dan ddylanwad ei neiniau a theidiau gan ei sefydlu i fywyd llawn a diddorol mewn addysg ac yn gymdeithasol. Soniodd gyda pharch mawr am ei chyfnod fel athrawes mewn ysgolion e.e Ysgol Iolo Morganwg gan ddwyn atgofion i lawer aelod o'u profiadau gwahanol hwythau yn y blynyddoedd a fu – prynhawn llawn hwyl a hiwmor, nodweddiadol o Cath!

Yr athro a'r awdur, Melfyn Hopkins oedd y siaradwr bythefnos yn hwyrach ar y testun "*Ynys Echni*" – sef Ynys Flat Holm – a welir yn glir o Benarth ar y pwynt mwyaf deheuol o Gymru. Fe'i ganed a'i fagu yng Nghaerdydd ac yn athro yn y ddinas. Mae'n amlwg fod hanes o ddiddordeb pennaf iddo, a'i fod yn ymchwilydd trylwyr.


*Melfyn Hopkins*

Ymddiddorai yn ifanc yn Ynys Echni gan ymuno â Chymdeithas Flat Holm gan dywys plant ysgol ac oedolion yno, yn gyson. Cyflwynodd gysylltiad y lle a chyfnod cynnar y Seintiaid, e.e. Cadog, hyd at yr Oesoedd Canol. Mae chwedl heb unryw sail iddi fod Thomas A'Becket wedi ei gladdu yno. Darluniodd longddrylliadau hanesyddol ac arferion fel smyglo i'r ogofeydd. Manylodd ar yr adeiladau, y ffermdy, y goleudy a'r corn niwl, y gwarchodleoedd rhag rhyfel a'r cysylltiad â Marconi a'i ddarganfyddiad radio. Gwelwyd lluniau godidog o anifeiliaid, phlanhigion unigryw ac adar yr ynys. Trwy ei ddisgrifiadau gwych, cododd awydd ar y gwrandawyr i ymweld â lle oedd braidd yn dieithr iddynt, a sylweddoli fod hanes diddorol ar "garreg y drws" dros y lli!

## Cymrodorion Caerdydd
Sefydlwyd 1885

## Gwleidyddiaeth Cymru

Anerchiad gan

## Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones A.C.

Nos Wener 29 Mawrth, 7.30 yh

yn y Tabernacl, yr Ais

*Croeso cynnes i bawb*

*Ni chyfyngir y cyfarfodydd i aelodau yn unig*
*Mynediad i aelodau yn rhad - £3 i eraill*

# PAUL FLYNN
## Colli Un o Feibion y Ddinas



Yn ddiweddar yn 84 oed bu farw Paul Flynn, Aelod Seneddol Llafur Gorllewin Casnewydd am dros 30 mlynedd a chyn hynny yn gynghorydd yng Nhasnewydd a Gwent. Meddai ar feddwl anibynnol. Roedd yn erbyn mynd i ryfel yn Irac ac o blaid cyfreithloni cannabis at ddefnydd meddygol. Cododd wrychyn sawl cynghorydd yn ystod ei yrfa ac roedd e'n gallu bod yn ddraenen yn ystlys y llywodraeth yn San Steffan. Bu'n dioddef o'r gwynegon ers pan oedd e'n naw oed a hwyrach fod hynny wedi ei arwain i alw ei hunangofiant a gyhoeddwyd yn 1998 yn 'Baglu Mlaen'.

Cafodd ei eni a'i fagu yn Grangetown, ac ar ôl pasio'r arholiad 11+ bu'n ddisgybl yn Ngholeg Illtud Sant yn y Sblott ac yno dysgodd y Gymraeg dan ei athro Glyn Ashton. Byth ers hynny bu'n arddel y Gymraeg ac ymhyfrydai yn yr iaith a'i diwylliant. Mi fu ef ac eraill yn ymgyrchu i gael ysgol Gymraeg yng Nghasnewydd yn erbyn rhagfarn llawer o'r cynghorwyr. Ond yn y diwedd ym 1971 llwyddodd yr ymgyrch a sefydlwyd Uned Gymraeg gydag wyth o ddisgyblion mewn ysgol yn y ddinas. Erbyn heddiw mae tair Ysgol Gynradd Gymraeg yng Nghasnewydd ac Ysgol Gyfun Gymraeg, diolch i'r arloeswyr hyn.

Coffa da am y gŵr dewr egwyddorol a phenderfynol hwn a serenodd er gwaetha popeth a gwelir ei eisiau yn fawr.

*Gwilym Roberts*

MENTER IAITH BRO MORGANNWG

**Gweithgareddau Craidd**

Mae gweithgareddau cyson Menter Bro Morgannwg yn cynnwys sesiynau **Amser Stori** mewn llyfrgelloedd ar draws y Fro, nosweithiau **Gigs Bach y Fro** a chlybiau chwaraeon i blant mewn partneriaeth ag Adran Chwaraeon yr Urdd. Yn ystod gwyliau ysgol, rydym yn cynnal **Cynllun Gofal** yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg (Y Barri), sesiynau chwarae agored am ddim yn Ysgol Gwaun y Nant (Y Barri) ac Ysgol Gymraeg Dewi Sant (Llanilltud Fawr), rhaglen o weithdai ar y cyd gyda Choleg Caerdydd a'r Fro, a chyfres o deithiau natur i'r plant ifancaf a'u teuluoedd. Edrychwn ymlaen hefyd i groesawu nifer o deuluoedd o'r Fro i'n Penwythnos Teulu yn Llangrannog yn ystod gwyliau'r Pasg.

**Gweithgareddau newydd mis Mawrth**

**Yoga** – i oedolion

Bob Sadwrn 10am-12pm - Festri Capel Bethel, Penarth dechrau ar y 10fed o Fawrth.

**Fi a Fy Mabi** – cwrs *antenatal* Cymraeg i famau beichiog. Sesiynau'n cynnwys Yoga Beichiogrwydd, Crefft, Tylino Babi a Sesiwn Holi ac Ateb gyda Bydwraig. Nosweithiau Llun 6.30-8pm yn Festri Capel Bethel, Penarth dechrau ar y 4ydd o Fawrth.

**Cerddorion Bach y Fro** – sesiynau rhyngweithiol gyda Rebecca Warner cerddoriaeth fywiog a chyffrous i blant 0-4. Bob prynhawn Llun 1.30-2.15pm yn Festri Capel Bethel, Penarth dechrau ar y 4ydd o Fawrth

**Deffro'r Synhwyrau** – sesiynau sensori i fabanod hyd at 12 mis oed. Bob bore Iau 10-11am yn Llyfrgell y Barri yn dechrau ar y 7fed o Fawrth.

I gofrestru/mwy o wybodaeth:

ffion@menterbromorgannwg.cymru / 029 20689888

**Gŵyl Fach y Fro**

Gŵyl Fach y Fro ar Ynys y Barri yw un o uchafbwyntiau'r flwyddyn i ni. Mae'r ŵyl yn cynnwys cerddoriaeth fyw, bwyd a diod, stondinau crefft, ardal chwarae i blant, a gweithgareddau o bob math. Dydd Sadwrn Mehefin 15fed.

**E-chlysur**

Rydym hefyd yn darparu gwasanaeth e-chlysur rhad ac am ddim sy'n rhannu gwybodaeth cyson ar e-bost am ddigwyddiadau a gweithgareddau cyfrwng Cymraeg ym Mro Morgannwg. Oes gennych chi ddigwyddiad i'w hysbysebu? Neu hoffech chi gofrestru i dderbyn yr ebyst? Cysylltwch!

www.menterbromorgannwg.cymru
ffion@menterbromorgannwg.cymru



# NEWYDDION O'R EGLWYSI

## TABERNACL, YR AIS

**Bedydd**

Edrychwyd ymlaen at fedydd pedwar o'n pobl ifanc ar Sul cyntaf y mis, sef Noa a Beca Evans, Gruffydd McVeigh ac Osian Williams. Cafodd pawb foddhad wrth fod yn dystion i'r fath achlysur ym mywyd y pedwar ifanc. Yn y gwasanaeth hwyrol derbyniwyd trosglwyddiad aelodaeth Enid Edwards o Ainon, Ynyshir i'r Tabernacl.

**Bore Coffi**

Diolch i Alan Kemp am ei groeso cynnes i'w aelwyd ganol Ionawr. Roedd croeso yr un mor dywysogaidd yn ein haros ar aelwyd Malcolm a Calan McGreevy ganol Chwefror.

**Pregethwr newydd**

Cawsom amryw yn derbyn gwahoddiad i bregethu yn yr oedfaon ardal dros y ddwy flynedd olaf, ac roedd yn braf gweld Derek Griffiths yn ei mentro hi yn ystod mis Ionawr. Bu'n cymryd rhan yn gyson yn yr eglwys Fedyddiedig Saesneg, nid nepell o'i gartref ym Mro Morgannwg, ond dyma'r tro cyntaf iddo wneud hynny yn y Tabernacl. Cafodd gefnogaeth parod eraill a fu, fel yntau, yn rhan o gymuned Ysgol Gyfun Rhydfelen.

**Y Gymdeithas**

Ddiwedd Ionawr cawsom gyflwyniad hamddenol ond hynod safonol gan Euros Rhys a Dafydd Huw. Roedd eu deuawdau ar y piano yn hyfryd, datganiadau Dafydd ar yr organ yn feistrolgar a dawn Euros fel datgeinydd piano yn mynnu sylw pob clust. Yna ddechrau Chwefror, mwynhawyd noson gymdeithasol yng nghartref Sian Dowling. 'Y Tabernacl a'r Iaith Gymraeg' oedd testun Dr Dylan Foster Evans ganol y mis. 'Bregus: Te a Chyflwyniad' oedd arlwy Lowri Davies a Rhiannon M. Williams i orffen gweithgareddau Chwefror.

**Datganiad Organ Jeff Howard**

Wedi ei berfformiad meistrolgar, cyfeiriodd Huw Thomas at Jeff Howard fel athrylith: cerddor aml-dalentog a ddangosodd ei fod yn adnabod organ y Tabernacl yn dda, gan iddo ei chanmol droeon yn ystod y datganiad. Ond yn bennaf oherwydd iddo ddefnyddio ystod eang o synau yr offeryn, gan newid stopiau yn gyflym-ddiffwdan.



*Gruffydd, Beca, Noa ac Osian ar achlysur eu bedydd*

## MINNY STREET

Estynnwn groeso i bawb – 'o'r ieuengaf i'r hynaf' – i'n hoedfaon ar y Sul (10.30 a 18.00). Y Gweinidog fydd yn arwain ein hoedfaon ar y tri Sul cyntaf yn y mis, y Parchedig Aled Edwards ar 24 Mawrth a'r aelodau fore Sul, 31 Mawrth (Sul y Fam). Yn yr hwyr y bydd Cymundeb ar 3 Mawrth. Bydd Ysgol Sul ar 3, 17, 24 a 31 Mawrth ac Oedfa Foreol Gynnar (9.30) ar 10 Mawrth. Byddwn yn ymuno yng Ngŵyl Bregethu Tabernacl, Yr Ais, nos Sul 31 Mawrth am 18.00. Yn methu dod i'r oedfaon? Ymunwch â ni drwy gyfrwng negeseuon trydar @MinnyStreet #AddolwnEf (ar Suliau'r Gweinidog). Yn dechrau toc wedi 10:30/18:00.

Bydd bwrlwm o gyfarfodydd yn ystod y mis. Er na fydd cyfarfodydd Bethania yn cael eu cynnal dros Dymor y Grawys, edrychwn ymlaen at gyfres newydd o bedwar cyfarfod dan arweiniad ein Gweinidog, sef Y Grawys mewn lliw, llun a llinell. Bydd cyfle i drafod arwyddocad y Grawys drwy lygad bardd, arlunydd a cherddor. Cynhelir y gyntaf yn y gyfres yn y festri nos Fawrth, 5 Mawrth am 19.30. Nifer cyfyngedig o lefydd sydd ar gael ar gyfer Noson o Grochenwaith nos Fawrth, 26 Mawrth am 19.30, felly y cyntaf i'r droell ...!

Bydd Babimini (ddydd Gwener, 15 Mawrth am 10.30), Llynyddwch (ddydd Gwener, 29 Mawrth am 10.00 yng nghaffi Terra Nova, Parc y Rhath), a PIMS (nos Lun, 4 a 18 Mawrth am 19.00) yn parhau. Cofiwch archebu ymlaen llaw i fwynhau Koinonia pnawn dydd Mercher, 13 Mawrth am 12.00 a Koinonia nos Sul, 17 Mawrth am 19.30.

Deuawd gerddorol gydag Ann a Mehefin fydd yn cloi rhaglen y Gymdeithas nos Fawrth, 12 Mawrth am 19.30. Gallwn edrych ymlaen at Ginio Pen Tymor y Gymdeithas yng Nghlwb Golff yr Eglwys Newydd lle bydd Rhiannon Evans yn ein diddanu.

www.minny street.org Gweinidog: Y Parchedig Owain Llyr Evans

## SALEM, TREGANNA

**Bedyddiadau**

Bedyddiwyd meibion Steffan a Catrin, sef Twm, Caio a Siôn ar 3 Chwefror. Dymuniadau gorau i chi fel teulu.

**Clwb y Bobl Ifanc**

Cawsom noson gwbl wahanol nos Wener 15 Chwefror wrth ymweld ag 'Ystafelloedd Ffoi' yn y dre. Cawsom lawer o hwyl ac fe lwyddodd sawl tîm i ddarganfod y cliwiau a ffoi o fewn yr amser angenrheidiol. Doedd eraill ddim mor llwyddiannus! Roedd angen gwaith tîm da! Pawb wedi cael noson wych!

**Grŵp canu**

Mae'r grŵp canu wedi ail-ddechrau ar nosweithiau Mawrth. Croeso i chi ymuno â ni am 7pm o dan arweiniad Geraint Cynan.

**Helpu'r di-gartref**

Rydym wrthi'n brysur yn cynnig llety, bwyd a chynhaliaeth yn wythnosol ar nosweithiau Mawrth i'n cyfeillion sy'n ddi-gartre ar hyn o bryd, a'r festri yn llawn. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

## EGLWYS DEWI SANT

**Bedydd**

Yn ddiweddar yn Eglwys Dewi Sant, bedyddiwyd Seirian Mair, plentyn Branwen a Joseff Geen. Llongyfarchiadau a'r dymuniadau gorau ar gyfer y dyfodol.

**Cymdeithas Nos Iau**

Ar noson ola Ionawr, ynghanol yr eira, daeth criw ynghyd i fwynhau cwmnïaeth hwyliog a bwyd blasus mewn Noson Gyrri.

**Gwasanaeth Teuluol**

Yn y gwasanaeth Sul y 10fed o'r mis bach am 10.30 i holl deulu'r eglwys fore, y thema oedd 'Dal Gafael' yn seiliedig ar Yr Efengyl am y Dydd â hanes y pedwar disgybl yn llwyddo i ddal pysgod wedi noson hesb, wrth ddilyn cyfarwyddyd yr Iesu i ddychwelyd i'r môr a rhoi cynnig arall arni.

**Coffi a Chlonc**

Ar drydydd bore Sadwrn mis Chwefror, daeth nifer dda unwaith eto o Ddysgwyr da a Chymry Cymraeg i Fore Coffi'r Dysgwyr yn Neuadd yr eglwys rhwng 10.30 a 12.00.

## BETHEL, PENARTH

Estynnwn ein cydymdeimlad llwyraf gyda Jane Lewis a'i meibion ar achlysur marw chwaer Jane. Estynnwn groeso nôl i Hazel yn dilyn cyfnod gyda'i meibion yn Llundain a Chasgwent lle cafodd loches a gofal atgyfnerthu wedi cwymp a thorri garddwrn.

Yn oedfa'r bore ar Chwefror 10 buom yn elwa o gyfraniad ein gweinidog wrth y Bwrdd Cymun a hefyd o anerchiad gan Arwel Elis Owen, pan soniodd am ei wasanaeth gyda grwpiau gofal y salwch dementia. Bu hyn damaid i aros pryd parthed y cyfarfod ym Methlehem, Gwaelod-y-Garth ar Chwefror 21, pan gafwyd cyfraniadau gan Beti George a Zoë Williams ar y testun Eglwysi Dementia – Gyfeillgar.

Oherwydd salwch ni fu modd i Euryn Ogwen ddod atom ar Chwefror 17, ond cawsom fudd o'i fyfyrdodau gan iddo anfon nodiadau helaeth yn rhoi cyfarwyddyd manwl ar gynnwys yr oedfa. Mawr ddiolch iddo am gofio amdanom o'i lesgedd. Seiliwyd y myfyrdod ar adnod 3 o bennod 3 o Lyfr y Pregethwr, 'amser i chwalu rhywbeth ac amser i adeiladu'. Roedd yr emynau (142, 851, 775, 866) yn atgyfnerthiad heriol.

Yn ystod mis Rhagfyr, cawsom her gan ein gweinidog i ddilyn Calendr Adfent Amgen, '…..bydd angen bocs wedi ei orchuddio â phapur lliwgar, yna llenwch y bocs gyda phob math o fwydydd …..'. Cafwyd awgrym o eitem ar gyfer pob dydd yn Nhymor yr Adfent. Yn oedfa'r bore ar Ionawr 13, cyflwynwyd y cyflenwad cyfan, 'fel Calennig' i'r Banc Bwyd lleol. Yn rhifyn Chwefror 7 o papur wythnosol Undeb yr Annibynwyr, Y Tyst, cyhoeddwyd llun o'r achlysur. Mae'r llun i'w weld isod. Erys cwestiwn amlwg: Ble mae'r gwragedd?

## BETHEL, RHIWBEINA

Yn ystod y mis cawsom y pleser o groesawu atom y Parch. D. Andrew Jones, y Parch. Dafydd Owen, a Mr Mansel Jones i arwain ein gwasanaethau, ac ar Chwefror 10 roedd y gwasanaeth a'r cymun yng ngofal ein gweinidog, y Parch. Evan Morgan.

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth y seiciatrydd adnabyddus, Dr Tom Davies, gynt o Flaendulais. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i briod Rosina, ei blant Lisa ac Iwan a'r wyrion Aron ac Elis.

Fel capel edrychwn ymlaen at ddathlu Gŵyl Dewi ar Fawrth 5 pan fyddwn yn ymuno am ginio yn y 'Caffi Fach', yn Rhiwbeina. Ym mis Ebrill byddwn yn croesawu Mrs Ann Mears atom unwaith eto i'n diddanu gyda'i sgiliau trefnu blodau.

Cynhelir gwasanaeth yng nghapel Bethel bob bore Sul am 10.15 ac mae croeso cynnes i bawb. Cynhelir hefyd ysgol Sul.

## EGLWYS Y CRWYS

Gyda'r tristwch mwyaf y daeth y newyddion am farwolaeth Mrs Rhian Davies. Cydymdeimlir yn ddwys â'i phriod, Mr. Gareth Rhys Davies, ac mae ein meddyliau a'n gweddïau gydag ef yn ystod y cyfnod anodd yma.

Cafodd yr ieuenctid brofiad arbennig gyda'r cyfle i holi y newyddiadurwraig, Bethan Rhys Roberts, mewn sesiwn o 'Hawl i Holi'. Diolch i Bethan am roi o'i hamser i addysgu'r ieuenctid ac i Thomas Williams am drefnu'r cyfarfod.

Cafwyd prynhawn difyr yng nghwmni Mrs Mari Williams yng nghyfarfod Prynhawn Da gyda'i hanerchiad addysgiadol ar 'Yr Hen Fyd'.

Noson hynod o hwyliog a llwyddiannus oedd y Noson Grempog o dan ofal Y Gymdeithas yng nghwmni Eleri Twynog. Diolch i aelodau'r pwyllgor am y trefniadau.

Mae'r Gymdeithas Ddrama yn brysur yn ymarfer dwy ddrama fer, sef '*Yr Ymarfer*', addasiad Anthony Evans o '*Y Practis*' gan Leyshon Williams, a *'Yr Arth'*, cyfieithiad T. Hudson Williams o *'The Bear'* gan Anton Chekov. Y Cyfarwyddwyr yw Betsan Evans ac Anthony Evans.

Fel arfer, mae croeso yn Y Crwys bob amser. Y Gweinidog fydd yn gwasanaethu ar Fawrth 3ydd a'r 17eg, gyda gwasanaeth ar fore'r 17eg gan yr Ysgol Sul yn cydlynu dathlu bywyd Dewi Sant a Sant Padrig. Cawn y pleser o groesawu ein cyn-Weinidog, y Parchg Glyn Tudwal Jones ar Fawrth 10fed, Mrs Margaret Jones, Port Talbot ar y 24ain, a'r Parchg Lona Roberts fore Sul, Mawrth 31ain. Byddwn yn ymuno â'n cyfeillion yn Eglwys y Tabernacl yn yr oedfa hwyrol ar y 31ain pryd y gwasanaethir gan y Parchg Judith Morris.




*dynion Bethel, Penarth*

## EBENESER

### Aelod newydd

Hyfrydwch mawr oedd cael derbyn Elise Gwilym yn aelod o Ebeneser ddechrau Rhagfyr. Daw Elise yn wreiddiol o Borthyrhyd, Cwm Gwendraeth Fach a threuliodd nifer fawr o flynyddoedd ym Mangor cyn symud i Gaerdydd fis Awst diwethaf. Nawr mae'n gweithio fel cynorthwy-ydd dosbarth yn Ysgol Melin Gruffydd.

### Diaconiaid newydd

Testun llawenydd i ni fel eglwys oedd neilltuo tri diacon newydd i'r ddiaconiaeth ar fore Sul 13 Ionawr, sef Cynan Llwyd, Alison Jones a Gwilym Jeffs. Gwerthfawrogwn yn



*Cynan, Alison a Gwilym*

fawr eu bod wedi derbyn eu henwebu i ymgymryd â'r gwaith pwysig hwn.

### Café du France

Yn dilyn oedfa'r bore ar 24 Chwefror cynhaliwyd bore coffi gyda chrempogau a *pain au chocolat* a chacennau i'w prynu. Diolch i Annick Moseley am baratoi a threfnu. Llwyddwyd i godi £200 ar gyfer ein helusen hyd at yr Haf eleni, sef Apêl Madagascar.

### Clwb Gwreichion a Llan Llanast

Mae clwb plant Gwreichion yn parhau i gael ei gynnal bob prynhawn Iau am 3:30 yn ystod y tymor ysgol, yn Ysgol Melin Gruffydd o dan arweiniad Adam Coleman. Croeso i unrhyw blant sydd am ymuno. Bydd y Llan Llanast nesaf yn cael ei gynnal ar fore Sul, Mawrth 10fed am 10:00 yng Nghanolfan yr Eglwys Newydd. Croeso i unrhyw blant (ac oedolion) i fwynhau ystod o weithgareddau sy'n llawn hwyl a sbri.

# Tŷ a Gerddi'r Dyffryn

## Ann Jones

I'r gorllewin o Gaerdydd saif *Y Dyffryn* - plasty hardd yng nghanol gerddi godidog. Ym 1891 prynwyd y stâd gan John Cory o Ddyfnaint ac ail adeiladwyd y plasty Siorsaidd, a'i wneud yn fwy moethus a chrand. Gwnaeth y teulu ei ffortiwn yn datblygu gweithfeydd glo yng Nghwm Rhondda - ac ymunodd John Cory gyda David Davies, Llandinam i ddatblygu dociau'r Barri. Ar un adeg allforiwyd mwy o lo o ddociau'r Barri nag o unman arall yn y byd.

Roedd gan John a'i wraig, Anna Maria, bedwar o blant – tri mab ac un ferch – ond y ferch, Florence, a'r mab ieuengaf, Reginald, fu'n ymwneud â stâd y Dyffryn. Cyflogodd Reginald gynllunydd gerddi enwog, Thomas Mawson, i ddylunio'r gerddi – maen nhw yno hyd heddiw ac wedi derbyn Safon Restredig Gradd 1.

Bu Reginald yn chwilio'r byd am blanhigion a choed prin ac egsotig i'w ardd. Bu farw ei dad, ym 1910 ond trigai Reginald a Florence, yn Nhŷ'r Dyffryn nes i Reginald briodi a symud i Swydd Dorset. Bu farw'n ddi-etifedd ym 1934 a bu Florence farw ym 1936.

Yn ôl yr ewyllys, gwerthwyd y stâd ac fe'i prynwyd ym 1937 gan dirfeddiannwr lleol, Syr Cennydd Traherne. Cyflwynodd y tŷ a'r gerddi i bobl Cymru i'w gweinyddu gan yr Awdurdod Lleol. Bu'n ganolfan gynadledda ac mae nifer fawr wedi mynychu amrywiaeth o gyrsiau yn y Dyffryn dros y blynyddoedd.

Erbyn hyn Cyngor Bro Morgannwg sy'n gyfrifol am y lle, ac yn Ionawr 2013 cyflwynwyd y stâd i'r Ymddiriedolath Genedlaethol ar lês 50 mlynedd. Yn raddol adferir y gwychder a fu yn y plasty a'r gerddi.

Roedd y teulu Cory yn gefnogol iawn i achosion da. Fe roddon nhw nawdd i Seindorf Pres yn y Rhondda sef Band y Cory – band sy'n parhau i ennill cystadlaethau rhyngwladol. Roedd aelodau teulu Cory yn Wesleaid pybyr ac yn gefnogwyr brwd i'r Mudiad Dirwest. Mae ceflun o John Cory gan Goscobme John, yng ngerddi'r Orsedd y tu allan i'r Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd.

Os nad ydych wedi ymweld â Thŷ a Gerddi'r Dyffryn, ewch draw da chi. Mae'n werth y daith!

# O'r Taf i'r Tiber

## Rhodri Jones

Ymgais yw hwn i ddisgrifio taith fythgofiadwy Côr Meibion Taf i Rufain ar achlysur Cymru'n chwarae'r Eidal.

Gadael Caerdydd am naw fore Iau, oherwydd gôr-dwymo car un o'n haelodau. Gwresog oedd ei groeso ar y bws. Ond, fe ddalion ni'r awyren heb drafferth. Cyrraedd Rhufain, a'r gwesty, a mynd i grwydro. Pasta a gwin coch oedd yr arlwy, wel beth rych chi'n ei ddisgwyl. Hirnos hwyliog a chwmni diddan gan fod ein harweinydd, Steffan Jones wedi'n hatgoffa o brif reswm y daith. Trannoeth roeddem i ganu yn y Pantheon. Felly dim gwin coch ar y dydd Gwener. Rhyfedd o beth gweld 30 o Gymry boch-goch iach yn yfed coffi a gwrthod gwin. Canu tu allan i'r Pantheon ar gyfer y teledu a dechrau'r gyngerdd am 5.30. Awr o raglen, y côr, Steff yn canu solos, Ieuan Jones, ein cyfeilydd gwadd, yn rhoi *recital* ar yr organ. 'Hen Wlad fy Nhadau' yn tynnu dagrau o'r gynulleidfa o ryw 600 a bwrw'n syth i mewn i 'Calon Lân'. Roedd hi fel cymanfa, â'r dorf yn morio canu gyda ni.

Dydd Sadwrn canu ar y Spanish Steps a geiriau Max Boyce "a croaking Calon Lân" yn disgrifio fy nghyfraniad personol i. Ymlaen i'r Stadio Olimpico a'r gêm, ac ennill! Roedd un o'n haelodau yn gadarn bod y Pab wedi clywed am ein canu nos Wener ac am ddod i'r offeren lle roedden ni'n canu ar fore Sul yn Eglwys Gesu Buon Pastore. Ddaeth e ddim.

Trên i Bologna a hedfan adre i Heathrow. Ma' 'na fois anhygoel yn y criw a diolch arbennig i Penri Thomas a drefnodd y daith. Arwr; oedd wedi teithio gyda ni ar ôl torri ei fraich deuddydd cyn i ni adael.

Trefnir nifer o gyngherddau yn y dyfodol gan gynnwys ymddangosiad yn y Proms ond mae lle a chroeso i aelodau newydd. Cysylltwch!
cormeibiontaf@gmail.com www.cormeibiontaf.cymru

# CERDYN POST O AMSTERDAM

## Lowri Haf Cooke yn holi Dylan Griffith

*Mae Dylan Griffith, sy'n 50, yn rhedeg stiwdio Smörgåsbord yn Amsterdam, yr Iseldiroedd.*



**Un o ble ydych chi'n wreiddiol, a ble yng Nghaerdydd gawsoch chi'ch magu?**

Ges i fy ngeni ym Mangor. Mam a Dad yn byw yn Hen Golwyn cyn inni symud i Gaerdydd pan o'n i'n bedair oed. Nes i dyfy fyny yn Llandâf. Dyddiau da – ar y BMX i bobman a threulio bob haf yn y pwll awyr agored yng Nghaeau Llandaf ac yn chwarae Frisbee.

**Pryd a sut lanioch chi yn Amsterdam, a beth ydych chi'n ei wneud yno?**

Ar gefn ail frandio S4C yn 2008 ges i gynnig swydd fel Cyfarwyddwr Creadigol MTV yn Ewrop – cytundeb 12 mis i gychwyn – a meddwl pam lai? Ma' blwyddyn wedi troi fewn i 10 mlynedd. Dwi'n rhedeg stiwdio dylunio a strategaeth Smörgåsbord (smorgasbordstudio.com ) yn y ddinas, tra bod fy mhartner busnes yn rhedeg ein stiwdio yng Nghaerdydd.

**Disgrifiwch eich diwrnod delfrydol yn Amsterdam, o fore gwyn tan nos...**

Yn yr haf, codi am 6.30, seiclo i'r parc lleol i nofio yn y pwll awyr agored 50m. Coffi yn 'TOKI' (tokiho.amsterdam) a wedyn i'r stiwdio erbyn 9. Diwrnod o waith yn gweithio ar brosiectau eang ac ysbrydoledig gan gwrdd a bobol o bedwar ban. Gorffen tua 6 a seiclo adre i neidio ar fy nghwch gyda ffrindie, bwyd, potel o win a cherddoriaeth. Mynd o amgylch y camlasau tan iddi dywyllu. Adre, paned o flaen y tân.

**Pa 3 lle yno y byddech chi'n annog i rywun o Gaerdydd a'r Fro eu profi, er mwyn cael blas go dda o'r ddinas?**

01 Bar T'Smalle, (t-smalle.nl) – bar ar gornel y stryd o'n stiwdio, ger y Prinsengracht yng nghanol y ddinas. Bar syml a thraddodiadol lle ma' posib chware' gwyddbwyll dros wydriad o La Chouffe – cwrw cryf a blasus o Wlad Belg.

02 Museumplein (iamsterdam.com) – lleoliad amgueddfeydd y Rijksmuseum, Stedelijk a'r Van Gogh – ysbrydoliaeth i'r eitha. Ewch yn gynnar, yn ddelfrydol yng nghanol yr wythnos.

03 Llogi beic a dal 'ferry' i ogledd y ddinas a seiclo i Broek in Waterland a Monickedam, (awesomeamsterdam.com/waterland-daytrip-bicycle/), gan fynd am 'swim' yn y Markermeer a chael ambell i biertje (cwrw bach) ar hyd y ffordd…

**Beth yw'r pryd bwyd gorau gawsoch chi yno?**

Pikkoteo – bwyty yng ngorllewin y ddinas sydd yn cael ei redeg gan chef o Madrid. Cymysgedd o tapas gyda dylanwadau o Korea.

**Ble mae'r olygfa orau yno?**

O ben y Westerkerk – eglwys sy'n dyddio o 1620.

**Beth, fel dinas, sydd gan Amsterdam y gallai Caerdydd fuddio ohono?**

Balchder a hunan hyder.

**Pan yno, beth ydych chi'n ei golli fwyaf am Gaerdydd?**

Dim llawer, heblaw am deulu a ffrindiau yn amlwg. Mae gan Gaerdydd gymaint i gynnig o ran 'defnydd crai'; lleoliad daearyddol – ar yr arfordir, ger y mynyddoedd ayyb – a bobol anhygoel, ond mae yna ddiffyg gweledigaeth, diffyg graen a diffyg 'gwneud'. Mae canol y ddinas – yn enwedig Stryd St Mary yn embaras. Does dim byd yn waeth na photensial heb ei wireddu.

# Anweledig

Cofnodion meddygol yw ysbrydoliaeth drama Gymraeg i'w gweld yn fuan yn Theatr y Sherman Caerdydd. Yn 2012, yn dilyn cais gan ddoctoriaid seiciatrig ym Mangor, defnyddiodd Cwmni'r Frân Wen gofnodion meddygol y seilam Fictorianaidd yn Ninbych.

Ffion Dafis yw'r actores yn y ddrama fonolog hon. Mae'r dramodydd Aled Jones Williams yn tynnu ar ei brofiadau ei hun, "Mae *Anweledig* yn ein helpu i ddeall, dynoli a chydymdeimlo â phobl sy'n dioddef o iselder," meddai. "Pan oeddwn i'n sâl roedd llawer o bobl yno i fy helpu, ond fel roeddwn i'n gwella roedd hi'n anoddach 'Proses ydi gwella, nid un digwyddiad'".Y cyfarwyddwr yw Sara Lloyd, sydd hefyd yn byw yng Nghaerdydd.

I gyd-fynd â'r cynhyrchiad, comisynwyd yr artist Mirain Fflur i greu arddangosfa gelf i redeg ochr yn ochr â'r sioe; gan defnyddio naratif y ddrama â straeon o'r hen ysbyty fel ysbrydoliaeth.

Mae 3 perfformiad o'r ddrama *Anweledig* yn Theatr y Sherman Caerdydd ar y 12 a 13eg o Fawrth.

Tocynnau a gwybodaeth pellach: https://www.shermantheatre.co.uk/performance/theatr/anweledig/

# Cwmni'r Dysgwyr

*"Efallai bydd llai o gyfleoedd a llai o ddosbarthiadau ffurfiol o ganlynuad i'r toriadau arfaethedig."*

## Gwilym Dafydd



**Janet Wilde**

Wyddech chi bod mwy o ddynion na gwragedd ar bwyllgor Y Dinesydd? A does dim gymaint â hynny o ddynion! Mae Janet yn haeddu gair o ddiolch oherwydd daeth i'w phwyllgor cyntaf y dydd o'r blaen a chadw cofnodion y cyfarfod. Tiwtor Cymraeg wedi ymddeol yw Janet ac mae'n dod o Bontlliw, Abertawe yn wreiddiol. Mae hi bellach yn dysgu Ffrangeg, *Bonjour* Janet a phob llwyddiant. Mae llawer iawn o ddysgwyr Caerdydd yn gyfarwydd â Janet ers sawl blwyddyn – dosbarthiadau'r Cyngor a dosbarthiadau'r Brifysgol. Diolch hefyd i Janet am alw draw weithiau i gefnogi Coffi a Chlonc dydd Llun yn Llaeth a Siwgr a dydd Gwener yn Caffi Zest Jams Hywel.



**Sean Kisby**

Shwmae, Sean Kisby dw i. (Sean heb 'i', roedd fy rhieni yn hoffi Sean Connery). Dw i wedi bod yn dysgu Cymraeg ers pedair blynedd. Arlunydd ydw i, yn byw yn Grangetown. Yn ystod yr Eisteddfod lawr y Bae llynedd, gwirfoddolais i weithio yn y Senedd i edrych ar ôl arddangosfa yn 'Y Lle Celf.' Roedd yn brofiad gwych i ymarfer fy Nghymraeg a chwrdd a rhai o'r arddangoswyr. Roedd sioe arall yn ddiddorol yn Bay Art, oriel ar Stryd James, yn dadansoddi sut mae y Gymraeg yn cael ei defnyddio mewn celf. Edrychwch allan am y peintiwr Iwan Bala, er enghraifft, sy'n defnyddio'r Gymraeg yn amlwg yn ei gelf. Efallai y bydda i'n gwneud yr un peth cyn bo hir!

Diolch yn fawr i Sean am anfon gair. Mae nifer o'r dysgwyr ifancach ar Trydar fel Sean. @kizzby.

**Coffi a Chlonc**

Glywsoch chi'r adroddiadau am doriadau posibl i Faes Dysgu Cymraeg i Oedolion ym Mhrifysgol Caerdydd yr wythnos o'r blaen? Efallai bydd llai o gyfleoedd a llai o ddosbarthiadau ffurfiol ac fel un o'r canlyniadau gallai sesiynau coffi a chlonc dyfu mewn poblogrwydd.

Daeth Sara Esyllt o Newyddion 9 yma y bore Mercher o'r blaen am sgwrs fach. Ces ychydig frawddegau ar ddiwedd ei hadroddiad. Mae'n dda clywed bod rhai ohonoch yn gwylio Newyddion 9 ar S4C.

Hyd yn hyn eleni rydw i wedi bod mewn o leiaf naw coffi a chlonc gwahanol o leiaf unwaith. Dydw i ddim yn colli Yr Awr Hapus, Gwesty Pentref Coryton, 10.45, boreau Llun, yna Llaeth a Siwgr yn yr Hen Lyfrgell, 1-2 a Caffi Zest, Jams Hywel, dydd Gwener, 1-2, yn aml gan taw fi sy'n gyfrifol amdanynt. Er maen nhw'n rhedeg eu hunain erbyn hyn, afraid dweud.

Ceir cloncs eraill a rhaid dweud bod y dysgwyr neu siaradwyr Cymraeg newydd, yn wych, oherwydd maent yn prynu sawl copi o'r Dinesydd ynddynt.

Does braidd wythnos yn mynd heibio heb fod o leiaf un person yn holi pryd a lle maen nhw'n cyfarfod, felly dyma'r chwech arall lle bum yn ddiweddar.

Canolfan Eglwys Ararat, Yr Eglwys Newydd, 10.30-12 dydd Gwener. Clonc Menter Iaith yn Yr Hen Lyfrgell 10.30-12, bore Mawrth – mae hwn yn boblogaidd iawn a nifer o ddysgwyr ac eraill yn galw draw. Caffi Heddwch Boadway, Waunadda (Matt Spry), 7-9 nos Fercher. Ac yn fisol grŵp Lynda Newcombe yn One2two, Whitchurch Road, nos Iau 7.30 tan tua 9 o'r gloch. Ydych chi ar gael weithiau ar fore Sadwrn? Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Y Waun Ddyfal, 10.30-12, ail bore Sadwrn a neuadd Eglwys Dewi Sant, Cilgant Sant Andreas, y trydydd bore Sadwrn o'r mis. Ceir nifer o grwpiau clonc tebyg felly croeso cynnes i chi anfon gair i ddweud sut mae pethau acw. eirianagwilym@gmail.com



*Llun: ED*

**Gwanwyn cynnar 2019**

Doedd hi ddim fel Gaeaf o gwbl yn ystod ail hanner mis bach sef mis Chwefror. Roedd hi mor heulog a chynnes yn ystod sawl prynhawn. Efallai wrth i chi ddarllen hwn yn ail wythnos mis Mawrth, tybed a fydd y tywydd gaeafol wedi dychwelyd! Dyma lun hyfryd o goed cyll yn diferu o gynffonnau ŵyn bach, mor agos i Asda Coryton. Cae uchaf uwchben hen gamlas Morgannwg, Fferm y Fforest yw hwn. A daeth y *daffodils* neu'r cennin Pedr yn gynnar iawn fel gwelwch yn y llun uchod ym Mharc Hailey.

**Amser Jôc gyda Huw James**

Galwodd ffrind gyda Dai yn ei dŷ a'i weld yn tynnu papur oddi ar y wal. Helo Dai…decoretio? Na, atebodd Dai – symud.

# Gwylio'r Geiniog

*"Cymerwch ofal gyda'ch buddsoddiadau."*

## Huw Roberts



Gyda diwedd y flwyddyn ariannol yn agosau ar 5 Ebrill 2019, os yn berthnasol defnyddiwch eich lwfansau llawn am eich ISA (£20,000), cyfraniadau pensiwn, lwfansau Treth ar Eiddo a rhoddion (£3,000) o dan rheolau Treth Etifeddiant.

Cymerwch ofal gyda'ch buddsoddiadau. Yn amal gwelwch hysbysebion am "mini-bonds" neu "crowdfunding" yn cynnig llog uchel iawn – efallai 6-8% yn lle y 1-1.5% arferol. Yn anffodus nid oes sicrwydd i'r buddsoddiadau yma, nid ydynt yn cael eu cefnogi o dan reolau'r *"Financial Services Compensation Scheme"* ac yn anffodus os ydynt yn mynd i'r wal gallwch golli canran fawr neu hyd yn oed y cyfan o'r buddsoddiad.

**Gofynnwch i Huw** : Yr wyf yn berchen ar sawl tŷ a hoffwn roi un i fy nith. A fydd treth yn daladwy ar y rhodd?

Yn ôl y Swyddfa Dreth mae Treth ar Eiddo yn daladwy pan ydych **yn gwerthu neu'n gwaredu eiddo,** heblaw os yw'n mynd i'ch priod, bartner sifil neu i elusen. Felly, er yn rhodd, bydd Treth ar Eiddo yn daladwy ar unrhyw gynnydd gwerth llai y £11,700 cyntaf, @ 18% neu 28% am drethdalwr uwch.

Os oes gennych gwestiwn cyffredinol am y golofn anfonwch e-bost at huwrobertsaccountant@gmail.com neu trwy www.huwrobertsaccountant.cymru neu ffoniwch 029 2069 4524.

*Mae Huw yn gyfrifydd sy'n arbenigo mewn treth incwm, ewyllysiau a gwaith profiant.*

## Tair Tiwtor Talentog

### Mared Furnham

Tri thiwtor ddylwn i ddweud, ond tair talentog sy'n serennu yn y Fro ar hyn o bryd!

Ers sefydlu Dysgu Cymraeg y Fro fel darparwr Cymraeg i Oedolion yn Mro Morgannwg yn 2016, mae'r twf yn niferoedd dysgwyr yr ardal wedi bod yn syfrdanol. Mewn dwy flynedd dyblwyd nifer y dysgwyr, o lai na 200 i ychydig dros 400 cant yn y dosbarthiadau'n wythnosol.

A dyma dair sydd wedi derbyn canmoliaeth haeddiannol am eu haddysgu arbennig - Sarian Thomas-Jones o'r Barri, enillydd Gwobr Genedlaethol Tiwtor Ysbrydoli! y Flwyddyn, Sefydliad Dysgu a Gwaith 2017. Dysgodd Sarian Gymraeg fel oedolyn ac mae hi'n arbennig o dda am annog y dysgwyr. Ar ôl wythnos lawn o ddysgu bydd Sarian yn Llyfrgell y Barri bob bore Sadwrn yn cael paned gyda dysgwyr o bob lefel. Mae rhannu'r iaith yn ffordd o fyw iddi hi.

Flwyddyn yn ddiweddarach aeth tîm y Fro i'r noson wobrwyo eto, i ddathlu llwyddiant Ann Davies a enillodd wobr Tiwtor Ysbrydoli! Genedlaethol 2018. Yn narlithfa newydd Amgueddfa Sain Ffagan, fe ysbrydolodd Ann pob copa walltog, trwy ddisgrifio sut mae ei myfyrwyr ar ei chwch rhwyfo rithiol, yn cynnal ei gilydd ar eu taith ddysgu. Mae hi'n meithrin naws ddifri ac hynod gynhaliol yn ei dosbarthiadau ac o ganlyniad mae ei dysgwyr yn llwyddo.

Am Shareen Mitchell o'r Rhŵs, meddai John Voss, cyn-filwr a'i henwebodd hi: "Mae egni, ymroddiad a brwdfrydedd Shareen yn eithriadol; mae ganddi ddealltwriaeth arbennig o'r rwystrau sy'n atal dysgwyr rhag gwneud cynnydd, ac rwy'n diolch iddi am fy ngalluogi i siarad Cymraeg â fy merch." Derbyniodd Shareen longyfarchion Rob Thomas, Prifweithredwr Cyngor Bro Morgannwg, a Paula Ham, Cyfarwyddwr Addysg a Sgiliau, sydd hefyd yn un o rwyfwyr brwdfrydig Ann.



*Sarian yn mwynhau cyflwyniad Nia Parri ar y noson wobrwyo*




evolution
Financial Planning
Ymgynghorydd Ariannol
*Yn rhoi naws benywaidd i ariannu*

**Ydych angen cymorth gydag**
ewyllys?
morgais?
yswriant bywyd?
rheoli arian a chyfrifon?

Am gyngor annibynnol ac argymhellion cysylltwch â:
**Lowri Clement** FCCA CeMAP
Rhif ffôn: 07847 714538
lowric@evolutionfinancialplanning.co.uk

## Y DIGWYDDIADUR

### Mawrth

**Sadwrn, 9 Mawrth**
Bore coffi rhwng 10.30 a 12.00 ar gyfer rhai sydd am ymarfer eu Cymraeg, yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays, CF24 4BX. Croeso i ddysgwyr ac i siaradwyr rhugl. Am 11.00am bydd sgwrs gan Marc Evans ar y testun 'Taith Dysgwr'. Yr un amser bydd dosbarth Cymraeg ar gyfer dechreuwyr dan arweiniad Amanda Griffiths. Mynediad am ddim: croeso cynnes i bawb.
**Mawrth, 12 Mawrth**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd. Bydd Mair Penri yn sôn am ei phobl, yn neuadd Eglwys Fethodistaidd Cyncoed (ar y gornel rhwng Westminster Crescent a Heol Cyncoed), am 7.30pm. Croeso cynnes i bawb.
**Mercher, 13 Mawrth**
Cymdeithas Cymru-Ariannin (Cangen y De). Sgwrs gan yr Athro Bill Jones ar y testun '"Apostol Mawr y Wladfa": Y Parch. David Stephen Davies (1841–1898)'. Yn Eglwys Gyfannol Treganna (*Canton Uniting Church*), Heol Ddwyreiniol y Bont-Faen, Treganna, CF5 1LQ, am 7.30pm. Croeso cynnes i bawb.
**Iau, 14 Mawrth**
Cylch Cadwgan. Bydd Ffion Dafis yn siarad ar y testun 'Syllu ar Walia' yng Nghlwb Rygbi Pentyrch am 8.00pm. Cydnabyddir cefnogaeth Llenyddiaeth Cymru.
**Gwener, 15 Mawrth**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. Sgwrs gan Hefin Wyn ar y testun 'Bachan Diaich! – Niclas y Glais', yn Ystafell 0.31, Adeilad John Percival, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, CF10 3EU, am 7.00pm. Croeso cynnes i bawb.
**Sadwrn, 16 Mawrth**
Cymdeithas Carnhuanawc. Ysgol Fore. Siaradwyr: Dr Beth Thomas, Emyr Lewis a'r Athro Prys Morgan. Lleoliad: Y Lolfa Greadigol, Lefel 5, Y Llyfrgell Ganolog, Yr Ais, Caerdydd. Cofrestru: 9.30–10.00am. Tâl: £5. Croeso cynnes i bawb. Manylion pellach: llanisien-carnhuanawc@yahoo.co.uk
**Sadwrn, 16 Mawrth**
Coffi a chlonc i ddysgwyr yn Eglwys Dewi Sant, Cilgant Sant Andreas, Caerdydd, CF10 3DD, rhwng 10.30 a 12.00. Mae croeso i chi ddod am baned ac i sgwrsio.
**Llun, 18 Mawrth**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd. Cystadleuaeth cyflwyniad gwyddonol i bobl ifainc 16–19 oed. Yn Ystafell 0.77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30pm. Croeso i bobl nad ydynt yn 'arbenigwyr' gwyddonol.
**Mercher, 20 Mawrth**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Sgwrs gan Elvira Moseley ar y testun 'Plentyndod yn y Wladfa', yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.
**Gwener, 22 Mawrth**
Clwb Canna yn cyflwyno Kizzy ac Eädyth – dwy chwaer: un noson wych o gerddoriaeth – yn Nhafarn 'Victoria Park', Treganna, am 8.00pm. Tocynnau: £10 (ar werth Ddydd Gŵyl Ddewi yn Caban).
**Gwener, 22 Mawrth**
Cabarela: noson cabaret o gomedi Gymraeg (16+) yng nghwmni Sorela, Hywel Pitts, y Divas a'r Diceds, yn ffresh, Canolfan Mileniwm Cymru. Drysau'n agor am 6.00pm; dechrau am 8.00pm. Tocynnau: £15. Manylion pellach: 029-2063-6464.
**Gwener, 29 Mawrth**
Cymrodorion Caerdydd. Sgwrs gan y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones, A.C., ar y testun 'Gwleidyddiaeth Cymru', yn festri'r Tabernacl, Yr Ais, am 7.30pm. Croeso cynnes i bawb. Ni chyfyngir y cyfarfodydd i aelodau yn unig. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r Ysgrifennydd: 029-2056-2880.
**Sadwrn, 30 Mawrth**
Cymdeithas Carnhuanawc. Pererindod i Gwm-du. Cyfarfod wrth Eglwys Llanfihangel Cwm-du am 11.30am. Manylion pellach: llanisien-carnhuanawc@yahoo.co.uk

### Ebrill

**Llun, 1 Ebrill**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, yng Ngwesty 'Rhif 10 Caerdydd' (Jolyons, gynt), 10 Ffordd y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ, am 7.00pm ar gyfer 7.30pm. Gwestai: Dr Hefin Jones. Croeso i ymwelwyr o gylchoedd cinio eraill. Os am archebu pryd, dylid cysylltu â'r Ysgrifennydd, Ruth Davies, ar billd.d2@tiscali.co.uk neu ffonio 029-2221-1407 neu 07717-837470 yr wythnos cynt.
**Mercher, 3 Ebrill**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. 'Gwefr y Telynau' gan Trio Eto, yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.
**Iau, 4 Ebrill**
Trysorau'r Ffydd. Yr emynydd Ieuan Glan Geirionydd fydd dan sylw y tro hwn yn y gyfres o gyfarfodydd o dan arweiniad yr Athro E. Wyn James sy'n edrych ar rai o uchelfannau ein llenyddiaeth Gristnogol. Yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, ar gornel Harriet St a Rhymney St, Cathays, CF24 4BX, am 7.30pm. Mynediad am ddim: croeso cynnes i bawb.
**Mawrth, 9 Ebrill**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd. Bydd Yvonne Evans yn sgwrsio am ei phobl a'r tywydd, yn neuadd Eglwys Fethodistaidd Cyncoed (ar y gornel rhwng Westminster Crescent a Heol Cyncoed), am 7.30pm. Croeso cynnes i bawb.
**Mercher, 10 Ebrill – Sadwrn, 13 Ebrill**
Theatr Genedlaethol Cymru yn cyflwyno 'Merched Caerdydd' gan Catrin Dafydd a 'Nos Sadwrn o Hyd' gan Roger Williams, yn Stiwdio Weston, Canolfan Mileniwm Cymru, am 7.00pm. Tocynnau: £12. Manylion pellach: 029-2063-6464.
**Iau, 11 Ebrill**
Cylch Cinio Merched Caerdydd yng Nghlwb Golff Radur am 7.00pm. ar gyfer 7.30pm. Gŵr gwadd: Arfon Haines Davies. Croeso cynnes i bawb. Am fanylion pellach, cysylltwch â'r Llywydd, Carys Tudor Williams (07958-265215 neu glyn.carys@btinternet.com).
**Sadwrn, 13 Ebrill**
Bore coffi rhwng 10.30 a 12.00 ar gyfer rhai sydd am ymarfer eu Cymraeg, yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays, CF24 4BX. Croeso i ddysgwyr ac i siaradwyr rhugl. Am 11.00am bydd sgwrs gan Arfon Jones ar y testun 'Cristnogaeth a Chymru'. Yr un amser bydd dosbarth Cymraeg ar gyfer dechreuwyr dan arweiniad Amanda Griffiths. Mynediad am ddim: croeso cynnes i bawb.

**I anfon gwybodaeth i'r Digwyddiadur**
**gweler manylion ar dud. 2**

# Bwytai Merch y Ddinas

*"Drannoeth, roedd gen i archwaeth aruthrol am wledd"*



**Lowri Haf Cooke**

**Wild Thing, Grangetown**

Mae gan bob maestref yng Nghaerdydd atyniad bwyd i bobol leol, boed yn gaffi neu'n fwyty cyri neu'n dafarn ddibynadwy. Radyr? Check: Cicchetti. Nata yn Waunadda. Llandaf: y Butchers. Rhiwbeina? Snails a Gateway of India. Tan yn ddiweddar ces bleser ym mwytai'r Rhath, ond bellach ceir atyniad dros y Taf...

Tra'n dêtio dyn yn Grangetown rai blynyddoedd yn ôl, roedd yno Merola's, Yang's a M.A. Fish Bar. Nawr, cymaint ag yr ydw i'n hoff o sgod a sglods a bwyd Eidalaidd, wnaeth y wib-berthynas honno ddim para. Gyda chymaint o atyniadau llachar mewn mannau eraill yng Nghaerdydd, collais i nabod ar Drelluest yn llwyr, er, bu'n galonogol darganfod fod y Vegetarian Food Studio yn dal i sefyll. Ond gyda Milgi yn y Rhath, ffeindiais fy lle am *chilli mojito*, cerddoriaeth cŵl, a chyfle am damaid...



Wel, megis ysbryd o'r gorffennol, galwodd Grangetown 'mas o'r glas' i geisio mherswadio ei fod wedi newid, ac yn haeddu ail gyfle. A wyddoch chi beth, fe ges i gorwynt o benwythnos, wnaeth droi fy mhen yn llwyr...

Y cam cyntaf i dorri'r garw oedd cwrdd am beint yn The Grange, a ail-agorwyd yn 2016 gan Tom Furlong a Gwyn Myring (Milkwood Pontcanna). Fel yn achos The Landsdowne – sydd hefyd yn eu meddiant – mae'n hafan deg i hipsters bwyd a chwrw crefft. Ymlaciais dros beint o gwrw golau Dr Grange Love gan fragdy lleol Crafty Devil, gan wneud nodyn i ddychwelyd am flas o'r frechdan Cubano. Ond yn gyntaf, rhaid oedd cael cip ar 'cod a chips' M.A. Fish Bar, am chwa bach sydyn o'r gorffennol. Roeddent cystal ag erioed, am fargen o bris... ac wrth ddiolch, ges i 'croeso' gan y perchennog.

Ymlaen wedyn i gig 'Gellir Gwell' dros Anibynniaeth i Gymru yn y Tramshed – yr hen ganolfan fysiau lle'r arferwn gael yr MOT rhataf y ddinas. Nid gormodiaith yw cymharu'r effaith drydanol â gweddnewidiad Sandy ar ddiwedd ffilm Grease. Oedd, roedd y Grangetown newydd yn taenu'i hud yn syfrdanol...

Drannoeth, wedi noson a hanner, roedd gen i archwaeth aruthrol am wledd... ond ble i droi am gyfuniad o frecwast a chinio fyddai'n cystadlu ag unman arall yn y dre? Dau air; Wild Thing ar Heol Clare - ar safle wreiddiol becws Bruton's. Fe agorodd y caffi figanaidd ei ddrysau wythnos ynghynt, a chreu cynnwrf yn syth ar instagram. Roedd yn orlawn pan gyrhaeddom, ond cawsom fwrdd yn gyflym iawn, a chyfle i sgwrsio â'r perchennog wrth archebu...

Magwyd Lauren Saunders ym Mhenybont ar Ogwr cyn symud i Lundain i ddilyn gradd yn y Cyfryngau. Pan ddychwelodd i Dde Cymru, gweithiodd i gyclhgrawn y Big Issue, cyn penderfynu sefydlu caffi a fyddai o fudd i'r gymuned mewn amryw ffyrdd. Mae'r lle'n f'atgoffa i o gyfuniad o Milgi, y Rhath, ac Empire Cafe (gynt) yn Cathays, gan wneud defnydd o gynnyrch lleol (er enghraifft, coffi Hard Lines a bara becws Riverside Sourdough). Mae'r *decor* yn cyfuno crochenwaith hynod retro o'r Almaen, a llestri gwirioneddol hyfryd gan Fairwater Pottery. Menter leol i'r Tyllgoed yw'r crochendy hwn, gan elusen Vision 21 sy'n cydweitho ag oedolion ag anawsterau dysgu. Yn ogystal ag annog mwy o bobol i fwyta llysiau, y gobaith mawr yw sefydlu oergell gymunedol; 'Banc' bwyd i gymdogion gyfrannu iddo, ar gyfer pobol leol sy'n wynebu heriau ariannol.

Mae'r bwyd yn flasus iawn – galla i'n bendant argymell y *ffritters* corn, y blodfresych kombucha a sglodion polenta. Carwn ddychwelyd i brofi'r cawl ffacbys gwyrdd llachar, lliw Kermit y broga, am bris unigryw 'talwch yr hyn y medrwch ei fforddio'. Roedd y pentwr o grempogau melys fymryn yn sych i mi, ond doedd gofyn am ragor o syrop masarn a datys ddim yn broblem. Ceir hefyd gacenau dyddiol blas oren, banana, neu siocled mafon i'ch denu ger y til, a ches i hefyd flas unigryw o 'kombucha coffi' y cogydd, Luke. Fe'i epleswyd (fermented) am wythnos o weddillion y coffi Hard Lines, gan f'atgoffa o flas *kaffee tonic* gwledydd Sgandinafia.

Gwelais fwy nag un ffrind yno'n sglaffio eu cinio, a phrofiad chwerwfelys oedd ffarwelio am y tro. Ond wrth droi fy mhen, chwythais gusan i Grangetown, gan wybod y byddwn i 'nôl.

**Wild Thing, 104 Heol Clare, Grangetown CF11 6RT**

***Bwytai Cymru* a *Canllaw Bach Caerdydd* gan Lowri Haf Cooke (Gwasg Gomer), £9.99 yr un.**



# Pêl-droed i Ferched yn Ffynnu yn y Barri

**Gyda thîm pêl-droed Y Barri yn llwyddo cystal, dyma nodyn i ddangos mai nid y bechgyn yn unig sy'n ymarfer y grefft.**

Clwb Pêl-droed Merched Barry Town United, sy'n gwasanaethu ardaloedd y Fro a Chaerdydd, yw'r sefydliad pêl-droed merched mwyaf yng Nghymru ar hyn o bryd gyda dros 200 o chwaraewyr o 6 oed hyd at fenywod hŷn.

Wedi'i leoli yn Stadiwm Parc Jenner, ail-sefydlwyd adran fenywaidd Barry Town United ar gyfer tymor 2015/16 ar ôl absenoldeb o 14 mlynedd.

Ar hyn o bryd mae ein tîm cyntaf Merched yn chwarae yn ail-haen Cynghrair Merched Cymru gyda'n tîm Datblygu Merched yn cymryd rhan yng Nghynghrair Merched De Cymru.

Mae gennym adran iau ffyniannus rhwng 6 a 16 oed, gyda nifer o chwaraewyr yn cynrychioli carfannau cenedlaethol a rhanbarthol Cymru, carfannau sirol a chanolfannau perfformiad.

Yn ogystal â chwarae, mae yna gyfleoedd i hyfforddi'r gêm. Mae Ymddiriedolaeth Cymdeithas Bêl-droed Cymru yn dangos eu hymrwymiad i'r iaith Gymraeg trwy annog hyfforddwyr i arwain mwy o sesiynau trwy'r Gymraeg. Mae'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn tyfu ac mae 1 allan o bob 5 person sy'n byw yng Nghymru nawr yn medru siarad Cymraeg.

Mae ymchwil gan yr Ymddiriedolaeth yn dangos bod dros 22% o hyfforddwyr yn siarad Cymraeg ac maent yn ceisio tyfu'r nifer yna wrth bwysleisio'r elfennau positif o arwain sesiynau dwyieithog. Gyda chymorth Llywodraeth Cymru, mae'r Ymddiriedolaeth wedi creu modiwl hyfforddi dwyieithog i fod o gymorth i hyfforddwyr sy'n awyddus i ddarparu sesiynau yn y ddwy iaith.

Rydym yn croesawu chwaraewyr newydd rhwng 6 a 16 oed i gymryd rhan yn ein clwb. Os oes gennych ddiddordeb anfonwch e-bost at: btuladies@gmail.com neu ffoniwch 07772 022435.

